



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru Cyllideb Ddrafft 2024-25

Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau
sydd Bwysicaf i Chi

Rhagfyr 2023

llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol	ii
Pennod 1: Y cyd-destun strategol	1
Pennod 2: Y cyd-destun cyllidol ac economaidd	5
Pennod 3: Trefniadau cyllido	10
Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru	18
Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru	24
Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol	26
Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am gynlluniau Cyllid Arloesol	48
Atodiad C: Cynllun Gwella'r Gyllideb	49
Atodiad D: Rhagolygon Trethi Datganoledig ac Addasiadau i'r Grant Bloc	50
Atodiad E: Costau gweithredu deddfwriaeth	55
Atodiad F: Rhestr o dermau ariannol	61

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Mae datganoli yn golygu gwneud penderfyniadau am Gymru yng Nghymru, gan gynnwys penderfyniadau am wariant. Ond, oherwydd strwythur ein setliad ariannu, mae'r rhan fwyaf o'n cyllid yn parhau i ddeillio o grant bloc gan Lywodraeth y DU sy'n adlewyrchu penderfyniadau am wariant mewn meysydd datganoledig yn Lloegr. Rydym felly'n agored i effaith penderfyniadau gwleidyddol a wneir yn San Steffan.

Yn ystod y tair blynedd ar ddeg diwethaf, mae llywodraethau olynol y Deyrnas Unedig wedi rhoi inni dros ddegawd o gyni, cytundeb Brexit diffygiol a mini gyllideb drychinebus y bu ond y dim iddi chwalu'r economi. Er inni wneud ein gorau glas i warchod gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a phobl Cymru rhag effeithiau gwaethaf y polisïau hyn, mae pob un ohonynt, yn unigol a chyda'i gilydd, wedi cael effaith sylweddol a pharhaol ar Gymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi profi pandemig Covid-19, rhyfeloedd yn Wcráin a'r Dwyrain Canol, chwyddiant sydd wedi aros yn uchel, argyfwng costau byw ac rydym yn parhau i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd sy'n dod yn fwyfwy amlwg.

Roedd Datganiad yr Hydref fis diwethaf yn arwydd gan y Canghellor o rownd newydd o gyni, wrth iddo ddewis defnyddio ei hyblygrwydd cyllidol i wneud toriadau cymharol fach i drethi a chanolbwyntio ar brosiectau tymor byr mewn etholaethau ymylol, yn hytrach nag adfer cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus bregus.

Mae i'w ddewisiadau ef oblygiadau tymor byr ar gyfer y penderfyniadau y gallwn ni eu gwneud yng Nghymru yn y rownd gyllideb hon, a bydd iddynt oblygiadau mwy hirdymor ledled y DU wrth i wasanaethau cyhoeddus unwaith eto wynebu toriadau dwfn a niweidiol yn sgil diffyg buddsoddiad gwirioneddol.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, nid yw ein setliad ariannu yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithriadol sydd ar Gymru, gan gynnwys chwyddiant sy'n parhau'n uchel, pwysau costau byw sy'n dal i effeithio ar bobl a busnesau a chodiadau cyflog heb eu hariannu yn y sector cyhoeddus. Nid yw ychwaith yn ddigonol i gydnabod y galw cynyddol am wasanaethau.

Roedd yn anorfod y byddai'r rownd gyllideb hon yn anodd iawn - yr anoddaf yng nghyfnod yr Adolygiad Gwariant presennol. Dyma flwyddyn olaf cyfnod yr Adolygiad Gwariant tair blynedd; blwyddyn olaf pan fo llai o gyllid ar gael i gyflawni ein holl ymrwymadau statudol, heb sôn am ein blaenoriaethau a'n Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol. Ond yn dilyn Datganiad Hydref y DU, mae ein cyllideb nawr yn werth £1.3bn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei gosod yn 2021.

Wrth wneud y Gyllideb Ddrafft hon, bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau eithriadol o anodd – y rhai mwyaf cyfyng a phoenus ers datganoli. Nid yw hi wedi bod yn flwyddyn arferol; nid ydym wedi cael toreth o ddewisiadau cadarnhaol o'n blaenau ynglŷn â ble y gallwn dargedu buddsoddiadau cynyddol ac ychwanegol.

Rydym wedi ail-lunio ein cyllideb yn radical fel y gallwn dargedu cyllid at y gwasanaethau sydd bwysicaf i chi – i fuddsoddi mwy yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a diogelu setliad craidd llywodraeth leol, sydd yn ei dro yn ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau beunyddiol hanfodol eraill yr ydym yn dibynnu arnynt.

Rydym wedi ail-lunio ein cyllidebau yn unol â set o egwyddorion arweiniol – diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl; sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf; blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd, a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.

Byddwn yn cynnal cymorth wedi'i dargedu a chymorth argyfwng i bobl y mae'r argyfwng costau byw parhaus yn effeithio arnynt, a byddwn yn parhau i wario mwy na hanner biliwn o bunnoedd i helpu aelwydydd a busnesau i dalu eu biliau Treth Gyngor ac Ardrethi Annomestig.

Ond i wneud hyn, rydym wedi penderfynu ailffocysu rhywfaint o wariant i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu. Mae'r rhain yn feysydd yr ydym wedi camu i'r adwy ynddynt o'r blaen i wneud iawn am y diffyg.

Drwy gydol y broses hon, rydym wedi cael ein harwain hefyd gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi parhau i fynd ati i ddeall effeithiau integredig y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud a'r angen i weithredu i atal yr effaith waethaf ar wasanaethau. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithredu yn y tymor byr i'w diogelu ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cynnal ein hymrwymiad i barchu'r egwyddorion hyn wrth inni symud ymlaen a chan ystyried ac addasu pan fo angen.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr yn y Cabinet am eu hymrwymiad parhaus a'u gwaith caled yn ystod y broses hon. Hoffwn ddiolch hefyd i Siân Gwenllian AS, yr Aelod Dynodedig Arweiniol ar gyfer y Cytundeb Cydweithio, am ei gwaith cyson hithau o ran y Cytundeb Cydweithio, sy'n gyfran fach (tua 1%) o Gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru, a'n perthynas waith agos.

Mae hon yn gyllideb anodd mewn cyfnod eithriadol. Ond yn y bôn mae'n gyllideb sy'n targedu buddsoddiad at y gwasanaethau cyhoeddus sydd bwysicaf inni i gyd.

Pennod 1: Y cyd-destun strategol

Trosolwg

1.01 Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi ein cynlluniau gwario referniw a'n cynlluniau gwario cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2024-25, gan ddiweddarau'r cynlluniau dangosol a amlinellwyd gennym fel rhan o Gyllidebau 2022-23 a 2023-24.

Goblygiadau Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU

1.02 Cafodd Llywodraeth Cymru derfynau gwariant ar gyfer 2022-23 i 2024-25 yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o wariant yn Hydref 2021. Adlewyrchwyd y terfynau hyn yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ochr yn ochr â chynlluniau gwario dangosol ar gyfer 2024-25, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023 yn y drefn honno.

1.03 Roedd Cyllideb Wanwyn Llywodraeth y DU yn cynnwys £178m yn ychwanegol ar draws 2023-24 a 2024-25 i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys £139.4m yn ychwanegol mewn adnoddau a £0.7m mewn cyfalaf yn 2024-25.

1.04 Roedd Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn cynnwys £305m yn ychwanegol ar draws 2023-24 a 2024-25 i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys £167m yn ychwanegol mewn adnoddau a £5.8m mewn cyfalaf yn 2024-25.

1.05 Y terfyn ar gyfer DEL Adnoddau Llywodraeth Cymru bellach yw £19.458bn ar gyfer 2024-25, cyn addasiadau i'r grant bloc.

Cyfrifoldebau cyllidol ac ariannu


1.06 Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei hariannu'n bennaf gan grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU. Mae datganoli pwerau treth – Cyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a Threthi Annomestig – yn golygu y bydd tua 21% o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ariannu o referniw o drethi datganoledig yn 2024-25.

1.07 Ceir gwybodaeth bellach am y polisi trethi ac am referniw ym Mhennod 3.

1.08 Mae cytundeb fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru'n nodi'r trefniadau sy'n cefnogi datganoli trethi, pwerau benthyca cyfalaf, offer rheoli cyllidebol, ac addasiad i Fformiwla Barnett a seilir ar anghenion.

Ffynonellau Cyllid

- 1.09 Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion y cyllid a gafodd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-5.



- 1.10 Mae tabl Ffynonellau Cyllid sy'n darparu data ar gyfer 2024-25 i'w weld yn y llyfr gwaith ODS [Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario](#) ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

Y cyd-destun amflwyddyn

- 1.11 Mae'r Gyllideb Ddrafft hon wedi'i phennu yn ychwanegol at y Gyllideb amflwyddyn a ddyrannwyd fel rhan o'r Adolygiad o Wariant yn 2021 a'r dyraniadau hynny a nodir yng Nghyllidebau Drafft 2022-23, a 2023-24. Dylid darllen y newidiadau i linellau gwariant y Gweinidogion yn y gyllideb a'r dyraniadau cyllid ychwanegol sy'n deillio o Ddatganiadau Gwanwyn a Hydref Llywodraeth y DU ar y cyd â'r ymarfer dyraniadau a gynhaliwyd fel rhan o Gyllidebau 2022-23 i 2024-25.
- 1.12 Cynhaliwyd adolygiad cwbl gynhwysfawr o gyllid cyfalaf drwy'r Adolygiad o Wariant. Nid oes ond newidiadau bach i'r dyraniadau amflwyddyn a ddarparwyd yng Nghyllidebau 2022-23 i 2024-25. Gellir dod o hyd i fanylion

pellach mewn dyraniadau cyfalaf cyffredinol yn y [Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru](#) a'r [Cynllun Cyllid Seilwaith](#) cysylltiedig.

Ymarfer Arbedion yn ystod y flwyddyn (2023-24)

1.13 Dros fisoedd yr haf, adolygodd Gweinidogion Cymru eu cynlluniau gwario ar gyfer 2023-24 i ddarparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i'r GIG a Thrafnidiaeth Cymru, mewn ymateb i bwysau ariannol dwys. Roedd y pwysau hyn yn ystod y flwyddyn yn deillio o effaith driphlyg, sef chwyddiant uchel parhaus, mwy na degawd o gyni i wasanaethau cyhoeddus, a chanlyniadau parhaus Brexit. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y newidiadau hyn ar 17 Hydref 2023, a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 sydd i'w chyhoeddi ym mis Chwefror 2024. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) 2023-24 wedi cael ei ddiweddarau drwy gyhoeddi ychwanegiad iddo ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hymgorffori mewn cynlluniau gwariant ar gyfer 2024-25.

Y Cytundeb Cydweithio

- 1.14** Pwyllgor Cyllid y Cytundeb Cydweithio yw'r prif ddull o ymgysylltu â'r Aelod Dynodedig Arweiniol ar ddyraniadau sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Cydweithio.
- 1.15** Fe wnaethom gytuno ar gyllideb tair blynedd fel rhan o'r Adolygiad o Wariant yn 2022 – y Gyllideb Ddrafft hon yw blwyddyn olaf y cytundeb hwnnw. Mae'r dyraniadau ar gyfer y Cytundeb Cydweithio wedi cael eu trafod yn fanwl gyda Phlaid Cymru a defnyddiwyd yr egwyddor o ddiogelu'r dyraniadau. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl parhau i gyflawni ymrwymiad gyda dyraniad llai neu dros gyfnod estynedig o amser, gwnaed addasiadau i ddyraniadau cyllid dangosol ar gyfer 2024-25 i gydnabod yr amgylchiadau ariannol hynod anodd sy'n wynebu'r Llywodraeth ac er mwyn cymryd camau i osgoi colli swyddi, i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac i barhau i ddarparu cymorth yn ystod yr argyfwng costau byw parhaus. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau Dynodedig Plaid Cymru i gyflawni'r ymrwymadau eang yn y Cytundeb Cydweithio.
- 1.16** Bydd rhai agweddau ar y Cytundeb Cydweithio yn parhau i gael eu cyflawni y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25. Mewn achosion o'r fath, a phan fo cyllid wedi'i ailbroffilio i sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cyflawni, byddwn yn gweithio ar y cyd â'r Aelod Dynodedig Arweiniol i sefydlu mecanwaith i sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol ar gyfer yr ymrwymiad ariannol parhaus hwn.

Blaenoriaethau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft

1.17 Y Gyllideb Ddrafft hon yw blwyddyn derfynol yr ymarfer i bennu'r gyllideb amflwyddyn bresennol ac mae'n adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud fel rhan o Adolygiad o Wariant Cymru 2022 a Chyllideb 2023-24. Cafodd y setliad amflwyddyn a ddarparwyd ei flaenlwytho, sy'n golygu bod y twf mewn

cyllidebau yn rhan gynnar y cyfnod tair blynedd hwn yn fwy nag yn y flwyddyn hon.

- 1.18** Byddwn yn buddsoddi mwy na £22bn yng Nghymru drwy'r Gyllideb hon, ac er nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys buddsoddiadau sylweddol ychwanegol newydd mewn gweithgarwch newydd mae'n dangos ymrwymiad parhaus a gweledigaeth glir i alluogi ein partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen fwyaf ar Gymru. Er hynny, mae setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn werth hyd at 1.3bn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei bennu yn yr Adolygiad o Wariant ac nid yw ein setliad yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithafol sydd ar wasanaethau cyhoeddus, oherwydd chwyddiant parhaus, setliadau cyflog heb eu hariannu, costau ynni uwch a galw cynyddol.
- 1.19** Mae Pennod 4 yn amlinellu sut yr ydym wedi ail-lunio ein cynlluniau gwariant yn radical yn unol â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan Weinidogion Cymru ar gyfer 2024-25. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl; blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd, gan sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf ac ailffocysu cyllid i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.
- 1.20** Mae'r blaenoriaethau hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio dyraniadau ar y meysydd hynny sy'n darparu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau. Ymhlith ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer cyllid mae gwasanaethau rheng flaen y GIG a setliad craidd llywodraeth leol, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gwneud popeth o fewn ein gallu i barhau i gefnogi economi Cymru. Mae ein pecyn rhyddhad Ardrethi Annomestig yn wahanol i'r cymorth a gynigir yn Lloegr ond, ynghyd â'n cynllun rhyddhad parhaol wedi'i ariannu'n llawn, bydd o fudd i bob talwr ardrethi. Bydd cronfa gyfalaf newydd yr ydym yn ei chreu hefyd yn hybu buddsoddiad yn y sector preifat.
- 1.21** Bydd y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn gofyn am gydweithio agosach nag erioed â'n partneriaid cyflawni yn y sector preifat wrth inni lywio ein ffordd drwy'r cyfnod heriol hwn gyda chyllidebau wedi'u hailddiffinio. Er hynny, drwy gydweithio, bydd cyfleoedd i ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni, dileu rhwystrau, ac arloesi i gyflawni ein hymrwymyiadau.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

- 1.22** Rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FTC), gan fuddsoddi mwy na £2.2bn mewn amrywiaeth eang o brosiectau sy'n rhoi cymorth i fusnesau a'r sector tai, a fydd o fudd i sawl rhan o'n cymdeithas a'n heconomi. Mae cyfran fawr o'r cyfalaf hwn wedi'i fuddsoddi mewn benthyciadau tymor canolig i dymor hir a buddsoddiadau neu gynlluniau ecwiti lle y mae benthyciadau tymor byrrach yn cael eu darparu, eu had-dalu ac yna eu hailddarparu i gefnogi busnesau eraill nifer o weithiau cyn i oes y cynllun ddod i ben.

1.23 Mae'r dyraniadau ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ar gyfer 2024-25 wedi'u hamlinellu ym Mhennod 4, a chaiff dyraniadau pellach eu cadarnhau adeg y Gyllideb Derfynol.

Proses y Gyllideb

1.24 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau eithriadol ar waith mewn perthynas â phroses y Gyllideb eleni, a hynny gyda chytundeb Pwyllgor Busnes a Phwyllgor Cyllid y Senedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gyda'i gilydd, ar 19 Rhagfyr, ddogfennau'r Gyllideb, gan gynnwys y cynlluniau gwario strategol ar gyfer refeniw a chyfalaf, trethiant a chynigion benthyca, yn ogystal â chynlluniau gwario manwl ar bortffolios.

1.25 Ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y cynlluniau hyn, byddwn yn cyhoeddi Cyllideb Derfynol 2024-25 ar 27 Chwefror 2024.

Pennod 2: Y cyd-destun cyllidol ac economaidd

- 2.01** Ystyrir y rhagolygon economaidd a chyllidol yn fanylach yn Adroddiad a Rhagolygon Cyllidol y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon. Crynhoir isod y materion allweddol yr ymdrinnir â hwy yn yr adroddiad.
- 2.02** Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r cyfuniad o dwf economaidd araf iawn a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith andwyol iawn ar safonau byw yng Nghymru.
- 2.03** Erbyn trydydd chwarter 2023, roedd cyfanswm GDP y DU wedi rhagori ar y lefelau cyn y pandemig, ond o'i fynegi ar sail y pen nid oes fawr ddim twf wedi bod – felly i bob pwrpas mae'r DU wedi gweld pedair blynedd o dwf wedi'i golli.
- 2.04** Mae chwyddiant prisiau defnyddwyr uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dwysáu effeithiau'r twf araf hwn ac wedi erydu safonau byw. Erbyn ail chwarter 2023, roedd incwm cyfartalog ledled y DU yn dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Mae chwyddiant wedi bod yn uwch, ac yn fwy cyson, yn y DU nag yn y rhan fwyaf o economïau mawr eraill.
- 2.05** Mae enillion wedi cynyddu mewn termau nominal yn fwy nag yr oedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Banc Lloegr yn ei ddisgwyl yn wreiddiol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn ddwys iawn o ran llafur, felly chwyddiant cyflogau yw'r prif ffactor sy'n sbarduno costau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
- 2.06** Cartrefi incwm isel sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan brisiau cynyddol. O'u cymharu â'r lefelau cyn y pandemig, mae prisiau bwyd wedi cynyddu bron 30% a phrisiau ynni 8%. Mae'r cynnydd ym mhrisiau bwyd ac ynni yn effeithio'n arbennig o ddifrifol ar aelwydydd tlotach.
- 2.07** Mae chwyddiant uchel felly wedi cael effaith arbennig o andwyol ar safonau byw yng Nghymru. O'i chymharu â chyfartaledd y DU, mae gan Gymru gyfran gymharol uchel o aelwydydd incwm isel.
- 2.08** Mae'r farchnad lafur yng Nghymru a'r DU wedi perfformio'n well na'r disgwyl o gofio'r gostyngiadau mawr mewn GDP yn ystod y pandemig. Roedd yn amlwg bod mesurau cymorth y Llywodraeth yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth.
- 2.09** Serch hynny, mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru a'r DU yn dangos arwyddion bod y farchnad lafur wedi gwanhau a bod cyfraddau cyflogaeth wedi gostwng ychydig. Fel sy'n wir ar draws y DU ehangach, mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru'n uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Mae'r data'n dangos bod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y bobl sy'n anweithgar oherwydd eu bod yn rhy sâl i weithio o'i gymharu â'r sefyllfa cyn y pandemig.

- 2.10** Yn ôl yr OBR, yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol diweddaraf a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2023, er bod chwyddiant wedi gostwng yn sydyn o'i anterth, disgwylir iddo aros yn uwch am amser hwy nag a ragwelwyd yn flaenorol. Disgwylir i chwyddiant uwch olygu y bydd y wasgfa ar incymau gwirioneddol yn parhau. O ganlyniad, mae'r OBR yn disgwyl i dwf GDP gwirioneddol arafu o 4.3% yn 2022 (gan adlewyrchu'r adferiad ar ôl y pandemig) i 0.6% eleni, a 0.7% y flwyddyn nesaf.
- 2.11** Mae'r OBR yn rhag-weld y bydd twf yn codi hyd at 1.4% yn 2025, a 1.9% ar gyfartaledd rhwng 2026 a 2028, wrth i'r wasgfa ar gyflogau gwirioneddol lacio ac wrth i gyfraddau llog ostwng. Mae twf gwirioneddol cronus rhwng 2023 a 2027 2.4 pwynt canran yn is nag yn y rhagolwg blaenorol ym mis Mawrth. Er hynny, gan fod diwygiadau data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynyddu'r ffigurau GDP alldro ar gyfer y blynyddoedd blaenorol, mae'r twf arafach hwn yn dod o sylfaen uwch, gan arwain at lefelau GDP ar gyfer 2026 ymlaen sy'n debyg i'r rhai a ragwelwyd yn flaenorol.
- 2.12** Yn ôl yr OBR, mae'r rhagolygon twf, unwaith eto, yn rhai tila ar y gorau – a byddent yn waeth byth o'u mynegi fesul pen. Er hynny, mae disgwyliad yr OBR ar gyfer twf yn llai pesimistaidd na'r rhagolwg diweddaraf gan Fanc Lloegr.
- 2.13** Mae'r OBR yn disgwyl i ddiweithdra godi i ryw 4.6% o'r llafurlu yn ail chwarter 2025. Mae'r anterth hwn mewn diweithdra yn uwch, ac mae flwyddyn yn ddiweddarach, nag a ddisgwylid ym mis Mawrth. Rhagwelir y bydd diweithdra yn syrthio yn ôl i'w gyfradd strwythurol (neu hirdymor sylfaenol) dybiedig o 4.1% erbyn 2028.
- 2.14** Mae'r OBR yn disgwyl i chwyddiant aros yn uwch am amser hwy na'r disgwyl yn flaenorol, gan gymryd tan ail chwarter 2025 i ddychwelyd i'r targed o 2%.
- 2.15** Mae'r OBR yn rhag-weld y bydd safonau byw'r DU, fel y'u mesurir gan incwm gwario gwirioneddol aelwydydd (RHDI) y person, 3.5% yn is yn 2024-25 na'r lefel cyn y pandemig. Y prif ffactorau yw effaith chwyddiant a chynnydd mewn trethi. Er bod hwn yn hanner y cwmp o'r pwynt uchaf i'r pwynt isaf a ddisgwylid gan yr OBR ym mis Mawrth, dyma'r gostyngiad mwyaf o hyd mewn safonau byw gwirioneddol ers i gofnodion y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddechrau yn y 1950au.
- 2.16** Mae'r dadansoddiad yn Adroddiad a Rhagolygon Cyllidol y Prif Economegydd yn dangos, yn dilyn gostyngiad sydyn yn 2022, y disgwylir i incymau cyfartalog yng Nghymru ostwng yn 2023 a 2024. Yn 2024 rhagwelir y bydd incymau cyfartalog yng Nghymru fwy na 2% yn is na'r lefel cyn y pandemig yn 2019. Rhagwelir y bydd adferiad bach yn 2025 a 2026 yn dal i adael incymau yn is na'u lefel cyn y pandemig. Byddai hyn yn gyfystyr â saith mlynedd o dwf incwm wedi'i gollu yng Nghymru ac mae'n dilyn cyfnod hir lle y cafwyd twf araf iawn yn unig mewn incymau gwirioneddol mewn termau hanesyddol.


- 2.17** Mae'r gostyngiad rhagamcanol hwn mewn incymau real yn ddigynsail, ac yn waeth o lawer na'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd ar ôl yr argyfwng ariannol yn 2008. O gofio bod gan Gymru lefelau incwm is, lefelau tlodi sy' uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU, a thai sy'n llai effeithlon o ran ynni ar gyfartaledd, mae'n ymddangos yn debygol y bydd effaith drom iawn ar bobl yng Nghymru.
- 2.18** Dros y tymor hwy, mae'r rhagolygon ar gyfer safonau byw ac ar gyfer cryfder y sylfaen dreth yn dibynnu ar adfywiad yng nghyfradd twf cynhyrchiant, sydd wedi bod yn hanesyddol wan ar draws y DU ers yr argyfwng ariannol yn 2008. Yn ôl rhagolwg newydd yr OBR, disgwylir i dwf cynhyrchiant aros yn is na'r gyfradd twf cyfartalog hirdymor o tua 2%.
- 2.19** Dywedodd yr OBR fod sefyllfa ariannol y DU wedi gwella ers y rhagolwg blaenorol ym mis Mawrth 2023. Er hynny, mae'r gwelliant hwn wedi'i ysgogi'n bennaf gan chwyddiant uwch na'r disgwyl sy'n hybu refeniw trethi.
- 2.20** Mae'r refeniw treth ychwanegol hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU i ariannu toriadau treth. Ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol i gymryd i ystyriaeth effaith chwyddiant uwch ar gost darparu gwasanaethau cyhoeddus. Dros y tymor hwy, mae gwerth y gostyngiadau treth newydd bron yn hafal i'r pwysau ychwanegol heb eu hariannu ar wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i chwyddiant.
- 2.21** Mae Llywodraeth y DU yn tueddu i ddiwygio i fyny ei chynlluniau ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd mewn Adolygiadau o Wariant, yn gymharol â'r rhagdybiaethau a wneir cyn i adolygiadau cael eu cynnal. Fel y nodwyd yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Tachwedd 2023 yr OBR, cafodd gwariant adrannol yn Adolygiad Gwariant Tachwedd 2015 swm ychwanegol o 14% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y lefelau tybiedig a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn cyn yr Adolygiad. Ar gyfer Adolygiad Gwariant Hydref 2021, y swm ychwanegol oedd 8% y flwyddyn ar gyfartaledd. Er na fyddai'n ddoeth cynllunio ar y sail honno, gallai newidiadau o'r lefel honno i flynyddoedd y tu hwnt i 2024-25 olygu cynnydd i gyllideb Llywodraeth Cymru o £1.4bn i £2.4bn y flwyddyn o'i gymharu â'r lefelau gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau uchod. Gallai hynny olygu bod gwariant o ddydd i ddydd yn tyfu 2% i 3% y flwyddyn i bob person mewn termau real, yn hytrach na llai na 0.5% fel y dangosir uchod.
- 2.22** Hyd yn oed ar gyfer y flwyddyn i ddod, pan fydd yn rhan o gyfnod Adolygu Gwariant sy'n bodoli eisoes fel 2024-25 yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gyffredinol wedi cael cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn – a hynny'n aml tua diwedd y flwyddyn. Mae cynnydd yn y setliad yn helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond mae'r diffyg rhagdybiaethau gwariant tymor byr a chanolig dibynadwy gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn heriol iawn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y gyllideb.
- 2.23** Y tu hwnt i gyfnod presennol yr Adolygiad o Wariant, rhagwelir mai cynnydd bach iawn a fydd mewn gwariant o ddydd i ddydd mewn termau real, ac y bydd gwariant cyfalaf yn sefydlog o ran arian parod. Mae hyn yn wasgfa

ddifrifol barhaus ar wariant cyhoeddus, gyda gostyngiad mawr o ran termau real mewn buddsoddiad cyhoeddus. Mae'r OBR yn nodi bod y gostyngiad mewn termau real mewn buddsoddiad cyhoeddus yn llawer mwy na'r cynnydd mewn buddsoddiad yn y sector preifat y mae'n disgwyl iddo ddeillio o ganiatáu i fusnesau ddidynnu cost lawn buddsoddiadau cyfalaf cymwys yn barhaol (“full expensing”).¹

2.24 Mae'r OBR hefyd wedi barnu bod sefyllfa ariannol y DU yn anghynaliadwy dros y tymor hwy. Mae hyn yn adlewyrchu yn bennaf effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio, sy'n cael ei gymhlethu gan effaith cyfraddau llog uwch ar gost dyled y llywodraeth.

2.25 Mae Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn darparu rhai dyraniadau ychwanegol bach iawn i gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2024-25. Oherwydd sioc chwyddiant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae setliad Llywodraeth Cymru dros dair blynedd cyfnod yr Adolygiad presennol o Wariant yn werth llawer llai mewn termau real nag a ddisgwylid adeg yr adolygiad yn 2021.

Siart 2.1 Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real i bob person (£, prisiau 2022-23²)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

¹ “Full expensing” yw didynnu costau buddsoddi cyn penderfynu ar atebolrwydd am dreth gorfforaeth.

² Gan eithrio cyllid ffermydd a newidiadau i IFRS16 nad ydynt wedi’u cynnwys mewn blynyddoedd blaenorol.

- 2.26** Fel y dangosir yn siart 2.1, ar ôl gostwng 7% mewn termau real yn ystod y degawd diwethaf, mae codiadau diweddar yn golygu bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn 2023-24 tua 3% yn uwch y pen nag yn 2010-11 mewn termau real, ond yn is nag yn 2022-23. Mae'n dal yn is na lefel 2022-23 yn 2024-25.
- 2.27** Mae rhagolwg ar gyfer 2025-26 i 2028-29 hefyd wedi'i gynnwys yn Siart 2.1, gan ddefnyddio'r twf tybiedig yn y DEL cyffredinol ar gyfer adnoddau'r DU o ragolwg mis Tachwedd yr OBR i gynyddu DEL Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig o Ragolwg Trethi Cymru'r OBR, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn dangos twf isel parhaus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rhwng 2024-25 a 2028-29 disgwylir i wariant o ddydd i ddydd i bob person dyfu lai na 0.5% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real ar sail tebyg at ei debyg. Bydd gwariant y pen yn 2028-29 ychydig yn uwch mewn termau real nag oedd yn 2022-23.

Pennod 3: Trefniadau cyllido

Trosolwg

- 3.01** Ariennir Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy gyfuniad o grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU a refeniw a gynhyrchir gan drethi yng Nghymru. Daw'r rhan fwyaf o gyllid Cymru drwy'r grant bloc.
- 3.02** Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ar 1 Ebrill 2018, ac maent yn cael eu casglu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) ar 6 Ebrill 2019 ac maent yn cael eu casglu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Ar wahân, ym mis Ebrill 2015, disodlodd y datganoli ariannol yn achos Ardrethi Annomestig (NDR) y trefniadau blaenorol ar gyfer rheoli'r risgiau ariannol. Gyda'i gilydd, bydd CTIC, LTT, LDT ac NDR yn cyfrannu rhyw £4.9bn i Gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2024-25.

Polisi Trethi

- 3.03** Mae datganoli trethi yn bwysig. Mae trethi'n cynnig ysgogiad arall i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau strategol pwysig i fusnesau a dinasyddion Cymru. Ategir dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi trethi gan y Diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi¹, sy'n nodi'r setliad datganoli cyllidol fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a 2017. Mae'n adlewyrchu hanes hirach ein trethi lleol hefyd, ac mae'n amlinellu'n glir flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd.
- 3.04** Mae'r Fframwaith Polisi Trethi wedi'i ddiweddarau yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a'r profiad o lunio polisi trethi ers i drethi gael eu datganoli. Mae'n nodi ac yn mynegi'r dull Cymreig neilltuol o ddatblygu a gweithredu polisi trethi ar y cyd, gan gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid yn y broses. Mae'n nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgorffori cynaliadwyedd, tegwch ac ystyriaethau cydraddoldeb yn y modd yr ydym yn mynd i'r afael â'n blaenoriaethau.
- 3.05** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi 2021 2026² ochr yn ochr â'r diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi. Mae'r Cynllun Gwaith ar Bolisi Trethi yn adeiladu ar ein hymrwymiaadau yn y Rhaglen Lywodraethu³ mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol ac yn hyrwyddo'r nod o sicrhau datganoli trethi cryf a sefydlog. Mae'n rhoi cyfeiriad a sicrwydd clir o ran blaenoriaethau polisi trethi Cymru am gyfnod o bum mlynedd.
- 3.06** Yn fras, mae blaenoriaethau polisi trethi Llywodraeth Cymru yn perthyn i'r tri maes canlynol:

¹[Diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU](#)

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026.pdf>

³ <https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu>

- Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu.
- Y gwaith parhaus o adolygu polisïau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill.
- Ffocws parhaus ar weithio gyda phartnerïaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru.

3.07 Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft rydym wedi cyhoeddi'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru. Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol yn erbyn y cynllun gwaith pum mlynedd.


3.08 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal cynhadledd drethi flynyddol i ddarparu cyfrwng pellach i ymgysylltu, addysgu a gwahodd mewnbwn i waith ar bolisi trethi. Cynhaliwyd y gynhadledd dreth ddiweddaraf fel digwyddiad wyneb yn wyneb ar 9 Tachwedd 2023.

Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)

3.09 Cyflwynwyd CTIC ar 6 Ebrill 2019. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bob agwedd arall ar dreth incwm o hyd ac mae CThEF yn parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru⁴.

⁴ Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymru fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, darperir diffiniad llawn o dan adran 8 o Ddeddf Cymru 2014:
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/29/section/8/enacted>

Siart 3.1: Cyfraddau treth incwm yng Nghymru, 2024-25



3.10 Mae'r broses ar gyfer Cymru'n golygu bod Llywodraeth y DU yn lleihau 10c ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a yw am bennu cyfraddau Cymru'n 10c, gan gadw cydraddoldeb rhwng trethdalwyr Cymru a Lloegr neu i bennu cyfraddau gwahanol. Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chymryd mwy mewn Cyfraddau Treth Incwm Cymru oddi wrth deuluoedd o Gymru am o leiaf cyhyd ag y mae effaith economaidd y pandemig yn para, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2024-25 yn 10c.

Trethi Cymreig eraill

3.11 Mae'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) wedi'u datganoli'n llawn i Gymru. Cyflwynwyd y ddwy dreth hyn ar 1 Ebrill 2018 ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae LTT ac LDT yn cynnig ysgogiadau pwysig sy'n galluogi Llywodraeth Cymru, os yw'n briodol, i hyrwyddo amcanion strategol eraill y llywodraeth, megis mynd i'r afael ag effaith niferoedd yr ail gartrefi mewn cymunedau yng Nghymru neu gefnogi cyflawni amcanion amgylcheddol ehangach. Yn dâl am y referniw trethi, mae grant bloc Cymru wedi'i ostwng yn ôl swm sy'n gyfwerth â'r hyn yr oedd trethi blaenorol y DU (Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a'r Dreth Dirlenwi) yn ei godi yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bod y ddwy dreth ddatganoledig yn cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, i gynhyrchu'r referniw y mae ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol Cymru.

Y Dreth Trafodiadau Tir (LTT)

- 3.12** Gwnaed newidiadau i brif gyfraddau preswyl LTT y llynedd a daethant i rym o 10 Hydref 2022. Ar gyfer y prif gyfraddau preswyl, cafodd y trothwy cychwynol ei godi o £180,000 i £225,000. Mae'r gyfradd dreth gyntaf bellach wedi'i phennu yn 6% ac yn gymwys i'r gyfran o'r pris rhwng £225,000 a £400,000. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i gyfraddau eraill, gan gynnwys y cyfraddau preswyl uwch.
- 3.13** Ni wnaed unrhyw newidiadau i unrhyw gyfraddau na throthwyon LTT ers 10 Hydref 2022.

Tabl 3.1: Prif gyfraddau preswyl LTT (o 10 Hydref 2022)

Trothwy prisiau	Cyfradd LTT
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £250,000	6%
Dros £400,000 i £750,000	7.5%
Dros £750,000 i £1.5m	10%
Dros £1.5m	12%

Tabl 3.2: Cyfraddau preswyl uwch LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd LTT
£0 i £180,000	4%
Dros £180,000 i £250,000	7.5%
Dros £250,000 i £400,000	9%
Dros £400,000 i £750,000	11.5%
Dros £750,000 i £1.5m	14%
Dros £1.5m	16%

Tabl 3.3: Prif gyfraddau amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd LTT
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £250,000	1%
Dros £250,000 i £1m	5%
Dros £1m	6%

Tabl 3.4: Rhent les amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd LTT
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £2m	1%
Dros £2m	2%

Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT)

- 3.14** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynyddu cyfraddau LDT yn unol â chwyddiant yr RPI fel y rhagwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), gydag effaith o 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn parhau â'r polisi o gadw cysondeb ag ymagwedd Llywodraeth y DU at gyfraddau'r Dreth Dirlenwi a chynyddu yn unol â'r chwyddiant a ragwelir ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at bennu cyfraddau LDT yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyfraddau, lle y rhoddir ystyriaeth i fanteision ac anfanteision newid y cyfraddau yn y dyfodol i hyrwyddo amcanion amgylcheddol ehangach.
- 3.15** Mae Cymru ar flaen y gad o ran polisi gwastraff, ac mae LDT yn ysgogiad ychwanegol defnyddiol i gefnogi polisiâu gwastraff Llywodraeth Cymru a chyrraedd y nod uchelgeisiol o Gymru ddiwastraff. Cwblhawyd adolygiad annibynnol o LDT ym mis Gorffennaf 2023. Ystyriodd yr adolygiad yr effaith y mae cyfraddau LDT wedi'i chael ar ymddygiadau yn y sector gwastraff (gan gynnwys gwarediadau anawdurdodedig) yn ogystal ag i ba raddau y mae'r ddeddfwriaeth LDT wedi dylanwadu ar ymddygiadau.
- 3.16** Mae canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad wedi bod o gymorth o ran ategu ein dealltwriaeth o effaith cyfraddau LDT ar ymddygiadau hyd yma, ac mae wedi bod yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at sawl maes allweddol i'w hystyried er mwyn cefnogi datblygiad pellach LDT.
- 3.17** Drwy bennu cyfraddau ar gyfer 2024-25 sy'n gyson â threth dirlenwi'r DU, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar referniw trethi, gan sicrhau bod y risg o symud gwastraff ar draws ffin Cymru a Lloegr yn llai. Bydd hyn yn sicrhau mesur o gysondeb a sefydlogrwydd ar draws y sector gwastraff tra bo canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu hystyried ymhellach a chyfeiriad LDT yn y dyfodol yn cael ei ystyried yn fanylach.
- 3.18** Bydd y cyfraddau arfaethedig ar gyfer LDT, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn cynyddu fel y nodir yn y tabl isod.

Tabl 3.5: Cyfraddau LDT, £ y dunnell.

Trothwy prisiau	2022-23	2023-24	2024-25
Cyfradd safonol	£98.60	£102.10	£103.70
Cyfradd is	£3.15	£3.25	£3.30
Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig	£147.90	£153.15	£155.55

Ardrethi Annomestig (NDR)

- 3.19** Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cap o 5% ar y cynnydd i'r lluosydd Ardrethi Annomestig (NDR) yng Nghymru ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 6.7% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr Medi) a fyddai fel arall yn berthnasol oherwydd chwyddiant diofyn y lluosydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae'n cael ei ddarparu ar gost flynyddol reolaidd o £18m o 2024-25 ymlaen. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y ddeddfwriaeth ofynnol, y lluosydd dros dro ar gyfer 2024-25 yw 0.562.
- 3.20** Capi'r cynnydd i'r lluosydd NDR i 5% yw'r lefel uchaf o gymorth fforddiadwy gan ddefnyddio'r holl gyllid canlyniadol a ddaeth i Gymru o ganlyniad i benderfyniadau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU. Mae'n sicrhau y bydd pob talwr ardrethi nad yw eisoes yn derbyn rhyddhad llawn yn elwa.
- 3.21** Byddwn hefyd yn buddsoddi £78m ychwanegol i ddarparu pumed flwyddyn yn olynol o gymorth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau Ardrethi Annomestig. Mae hyn yn adeiladu ar y bron i £1bn o gymorth sydd wedi'i ddarparu drwy ein cynlluniau rhyddhad ardrethi ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn derbyn rhyddhad NDR o 40% yn ystod 2024-5. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y rhyddhad yn cael ei gapio ar £110,000 fesul busnes ledled Cymru.
- 3.22** Daeth y rhestr Ardrethi Annomestig gyfredol i rym ar 1 Ebrill 2023, yn dilyn ailbrisiad. Rydym yn rhoi rhyddhad trosiannol i bob talwr ardrethi y cynyddodd ei atebolrwydd fwy na £300 o ganlyniad i ailbrisiad. Mae cynnydd o'r fath mewn atebolrwydd NDR o ganlyniad i ailbrisiad yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd.
- 3.23** Mae talwyr ardrethi cymwys yn talu 33% o'u hatebolrwydd NDR ychwanegol eleni (2023-24). Bydd hyn yn cynyddu i 66% yn 2024-25, cyn iddynt gyrraedd eu hatebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn yn dilyn ailbrisiad (2025-26). Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £113m dros ddwy flynedd i ariannu'r rhyddhad hwn, gan gefnogi holl feysydd y sylfaen drethu drwy gynllun trosiannol cyson a syml. Y cyllid a ddarperir ar gyfer rhyddhad trosiannol yn 2024-25 yw £37.6m.
- 3.24** Bydd y mesurau hyn i gyd yn darparu £134m o gymorth ychwanegol ar gyfer 2024-25. Ar y cyd â'n cynlluniau rhyddhad parhaol a ariennir yn llawn, sy'n werth £250m i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill bob blwyddyn, bydd £384m yn cael ei fuddsoddi yn 2024-25 mewn cymorth Ardrethi Annomestig. Bydd pawb sy'n talu ardrethi yn elwa ar y pecyn hwn.
- 3.25** Yn ogystal â'r cymorth Ardrethi Annomestig hwn, bydd cronfa ar gyfer sectorau yr effeithir arnynt yn cael ei datblygu i ategu'r penderfyniadau NDR ehangach. Bydd y cymorth hwn yn darparu cyllid i fusnesau bach a chanolig cymwys yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, i gael ei ddefnyddio yn ystod 2024-25 i fuddsoddi mewn mesurau i ddiogelu eu busnesau at y dyfodol.

Rhagolygon refeniw trethi annibynnol

3.26 Mae rhagolygon annibynnol o refeniw trethi datganoledig oddi wrth yr OBR ynghlwm wrth y Gyllideb Ddrafft hon. Mae adroddiad Rhagolwg Trethi Cymreig ar wahân sy'n darparu cefndir a manylion am y rhagolygon wedi'i gyhoeddi ar wefan yr OBR. Dangosir y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn a gwmpesir gan y Gyllideb Ddrafft yn Nhabl 3.6.

Tabl 3.6: Rhagolygon Refeniw Trethi £m

	2024-25
Y Dreth Trafodiadau Tir	251
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	29
Cyfraddau Treth Incwm Cymru	3,171

Addasiadau i'r grant bloc

3.27 Yn dilyn datganoli pwerau trethi i Gymru, cafodd grant bloc Llywodraeth Cymru ei leihau oherwydd bod refeniw o drethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig bellach yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

3.28 Mae newidiadau o ran yr addasiadau i'r grant bloc yn cael eu hysgogi gan dwf yn y trethi cyfatebol yn y DU. At ddibenion y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r addasiadau yn gyson â rhagolygon OBR ynghylch trethi cyfatebol y DU yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol mis Tachwedd 2023.

3.29 Mae manylion yr addasiadau i'r grant bloc a'r symiau cysoni i gyfrif am alldro wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

Cronfa Wrth Gefn Cymru

3.30 Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau'r fframwaith cyllidol i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd sy'n deillio o refeniw trethi, drwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio yn y blynyddoedd i ddod. Disodlodd y broses flaenorol o gyfnewid cyllidebol.

3.31 Gall Cronfa Wrth Gefn Cymru ddal hyd at £350m. Mae'r symiau y ceir eu tynnu i lawr bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes unrhyw derfynau blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

3.32 Cyflwynodd y polisi cyllidebol, a fabwysiadwyd yn 2022-23 fel rhan o Adolygiad Gwariant diwethaf Cymru ac a fydd ar waith am weddill cyfnod y setliad amlflwyddyn hyd at a chan gynnwys 2024-25, strategaeth gyllidol newydd i sicrhau'r cyllid gorau posibl. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol lle roedd cynlluniau gwariant yn defnyddio'r terfyn tynnu i lawr blynyddol o £125m

yn llawn, nid yw'r cynlluniau gwariant hyn yn tybio tynnu symiau'n llawn o Gronfa Wrth Gefn Cymru. Byddwn yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael yn 2024-25 drwy ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn Cymru i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn heb ddal DEL heb ei ddyrannu, gydag unrhyw symiau pellach a dynnir i lawr yn cael eu cynnwys o fewn y gyllideb atodol briodol. Mae pwysau ariannol eithafol y flwyddyn ddiwethaf wedi cynyddu risgiau'r strategaeth hon gyda defnydd uwch o gronfeydd wrth gefn na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Safonau Cyfrifyddu Newydd IFRS16

- 3.33** Mae cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn eithrio addasiadau technegol sy'n deillio o ganlyniad i weithredu safonau cyfrifyddu newydd IFRS16 o ran trin lesioedd.

Benthyca

- 3.34** Bydd Llywodraeth Cymru'n tynnu ei chyfalaf benthyca o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Mae rhagolygon ad-dalu am y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf i'w gweld gan ddefnyddio'r ddolen hon i'r llyfr gwaith ODS Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario:

[Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario](#)

- 3.35** Mae'r rhagolwg ad-dalu yn tybio cyfnod ad-dalu o 25 mlynedd a chyfradd llog o 4.5% yn 2024-25.

Mesurau ychwanegol i godi refeniw

- 3.36** Mae Gweinidogion Cymru yn edrych ar opsiynau i gynyddu refeniw drwy nifer o fesurau yn 2024-25 a thu hwnt i'r cyfnod Adolygu Gwariant hwn. Bydd angen diwygio Cwmpas y Gyllideb, yn ôl yr angen, i ganiatáu ar gyfer yr incwm ychwanegol a'r gwariant y bydd yn ei ariannu.

Cyllid Arloesol

- 3.37** Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyca, rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol i helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Darperir y newyddion diweddaraf am y cynlluniau hyn yn Atodiad B.

Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

- 3.38** Mae ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid y grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU, ar y cyd â threthiant sydd wedi'i ddatganoli'n llawn, Cyfraddau Treth Incwm Cymru ac Ardrethi Annomestig. Mae tabl sy'n nodi ffynonellau ar gyfer cyllid adnoddau a chyfalaf i'w weld yn Nhab 1 yn y ddogfen isod:

[Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario](#)

Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Trosolwg

- 4.01 Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn wariant adnoddau o £21bn a gwariant cyfalaf o £2.7bn.
- 4.02 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 1, dylid darllen dogfennau'r gyllideb hon ar y cyd â'r dull cyllido amlflwyddyn (Cyllidebau Drafft a Therfynol 2022-23 sy'n darparu cynlluniau o 2022-23 i 2024-25). Mae'r dogfennau hyn ar gael ar [dudalennau gwe](#) Llywodraeth Cymru.
- 4.03 Dylid darllen y blaenoriaethau hyn hefyd ochr yn ochr â'r Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) (Atodiad A) ac adroddiad y Prif Economegydd. Mae'r ddau yn rhoi mwy o fanylion am y cyd-destun a'r effeithiau ehangach sy'n llywio ein proses o wneud penderfyniadau cyllidebol.

Dyraniadau Allweddol yn 2024-25

- 4.04 Mae newidiadau i setliad Llywodraeth Cymru drwy'r Addasiad i'r Grant Bloc wedi'u hystyried ochr yn ochr â dyraniad ehangach Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd arno yn 2021 fel rhan o'r setliad amlflwyddyn. Mae'r ystyriaethau hyn wedi galluogi'r dyraniadau ychwanegol canlynol i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ochr yn ochr â dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol sylweddol.

GIG Cymru

- 4.05 Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi swm pellach o gyllid refeniw gwerth £450m yn y GIG yn 2024-25 drwy ailgwmpasu dyraniadau o fewn y Gyllideb Ddrafft hon. Mae hyn yn dod â chyfanswm y cyllid blynyddol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i £11.004bn.
- 4.06 Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i gefnogi'r GIG a gallu'r sector gofal iechyd i ddarparu ystod eang o wasanaethau mewn cymunedau lleol i gefnogi ein hiechyd a'n llesiant.
- 4.07 Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu galw cynyddol am ei wasanaethau ar adeg pan fo costau gofal, gan gynnwys staffio a thriniaeth, yn cynyddu. Mae'r pwysau hyn yn gyffredin i wasanaethau iechyd ar draws y DU.
- 4.08 Yng Nghymru, bob mis, mae 2m o bobl yn cael cysylltiad â'r GIG, a hynny mewn poblogaeth o ychydig dros 3m o bobl. Mae 1.5m o bobl yn cael cyswllt â gwasanaethau gofal sylfaenol bob mis, a phob blwyddyn mae 1.5m o bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gofal eilaidd ar gyfer triniaeth neu brofion pellach.

- 4.09** Mae'r cyllid o £450m, sy'n dod o ail-lunio ein cynlluniau gwario, yn ychwanegol at y swm o £425m a ddarparwyd ym mis Hydref (ar gyfer 2023-24). Mae hyn gyfwerth â chynnydd o fwy na 4% yn 2024-25, o'i gymharu â llai nag 1% ar gyfer y GIG yn Lloegr.
- 4.10** Bydd y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn destun ailflaenoriaethu pellach i helpu'r GIG i gynnal gwasanaethau craidd ar adeg o bwysau eithafol ar gyllidebau a galw cynyddol am wasanaethau o du'r cyhoedd. Ond hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol hwn, bydd 2024-25 yn dal yn flwyddyn anodd i'r byrddau iechyd a gallent wynebu penderfyniadau eithriadol o anodd i reoli eu cyllidebau.

Llywodraeth Leol

- 4.11** Rydym wedi ymrwmo i gynnal y setliad Llywodraeth Leol ar 3.1%, gyda chyfraniad cyllid craidd blyneddol sy'n gyfanswm o £5.7bn. Rydym yn darparu £1.3m drwy'r Grant Cynnal Refeniw i sicrhau nad yw'r cynnydd yn setliad unrhyw awdurdod lleol yn llai na 2%. Mae diogelu'r cyllidebau hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd hanfodol ein partneriaid Llywodraeth Leol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol rheng flaen, gan gynnwys mewn dau o'u meysydd gwasanaeth mwyaf – sef ysgolion a gofal cymdeithasol.
- 4.12** Mae nifer o fesurau diogelu ar waith ar gyfer cyllid ysgolion o dan bortffolio'r Gymraeg ac Addysg, a chyfuno ffrydiau cyllid grant i alluogi'r awdurdodau lleol i gael mwy o hyblygrwydd i ymateb a chyflawni yn yr amgylchiadau newidiol hyn.
- 4.13** Bydd y cyllid Safonau Ysgolion newydd yn ein Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn diogelu cyllid mewn perthynas â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a sefydlwyd i helpu dysgwyr i oresgyn effeithiau negyddol y pandemig. Rydym hefyd yn diogelu'r cyllid Grant Datblygu Disgyblion sy'n ariannu ysgolion i gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel, o dan ein hamcanion cyffredinol ar gyfer tegwch mewn addysg.
- 4.14** Roedd disgwyl i'n rhaglen lwyddiannus i adfer ar ôl Covid, 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau', gael ei thapro yn y gyllideb hon wrth i'r effeithiau ôl-bandemig leihau. Er hynny, gwyddom fod effeithiau'r pandemig yn parhau i fod yn niweidiol i'n dysgwyr ledled Cymru, felly rydym yn diogelu'r cyllid hwn er mwyn parhau i'w cefnogi.
- 4.15** Mae cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i ysgolion wedi cael blaenoriaeth. Ar gyfer 2024-25 mae cyfuno grantiau addysg cyn-16 yn darparu'r un lefel o gyllid o'u cymharu â grantiau tebyg a ddarparwyd i'r awdurdodau lleol yn 2023-24; mae hyn hefyd yn gynydd o 3.2% o'i gymharu â chyllideb ddangosol 2024-25 ar gyfer yr un grantiau.
- 4.16** Rydym yn darparu pecyn o gymorth ychwanegol sy'n werth £134m ar gyfer Ardrethi Annomestig y flwyddyn nesaf, ar ben ein cynlluniau rhyddhad parhaol sy'n werth £250m y flwyddyn. Bydd pawb sy'n talu ardrethi yn elwa ar y pecyn hwn.

Cyfalaf

4.17 Cynhaliwyd adolygiad cwbl gynhwysfawr o gyllid cyfalaf drwy'r Adolygiad o Wariant. Ychydig iawn o newidiadau sydd i'r dyraniadau amlflwyddyn a ddarparwyd yng Nghyllidebau 2022-23 i 2024-25. Rydym yn canolbwyntio o hyd ar fuddsoddi mewn seilwaith i hwyluso'r canlyniadau hirdymor a nodir yn Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Cyllid Seilwaith cysylltiedig. Ceir manylion pellach mewn dyraniadau cyfalaf cyffredinol yn y tablau BEL cysylltiedig a darperir diweddariad llawn ar fapio cyfalaf adeg y Gyllideb Derfynol.

4.18 Bydd y mwyafrif o'r dyraniadau ar gyfer cyfalaf cyffredinol yn aros yn eu hunfan ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT)

4.19 Mae cyfalaf Trafodiadau Ariannol (FT) yn ffurf benodol o gyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth y DU gydag amodau ar ei ddefnydd. Mae angen ad-dalu cyfran o'r cyllid hwn i Lywodraeth y DU.

4.20 Mae'r cyfyngiadau ynghylch defnyddio cyfalaf FT, yr amserlenni ar gyfer datblygu cynigion a chyhoeddi Datganiad Hydref y DU yn hwyr wedi cyfyngu ar ein gallu i wneud dyraniadau FT llawn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Rydym yn gallu dyrannu rhai yn y Gyllideb Ddrafft, a bydd dyraniadau pellach yn cael eu gwneud adeg y Gyllideb Derfynol.

4.21 Bydd y dyraniadau FT gwerth £31.8m yr ydym yn eu gwneud yn y Gyllideb Ddrafft hon yn cefnogi ymhellach y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2021.

4.22 Dyma fanylion y dyraniadau:

- Er mwyn parhau i gefnogi gwelliannau i'n hystad addysg, rydym yn darparu swm pellach o £2.8m yn ein rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Buddsoddiad ecwiti yw hwn, a'i brif amcan yw hwyluso cyfleusterau newydd ychwanegol sy'n ychwanegol at y rhai y gall Cyllideb Cyfalaf Addysg Llywodraeth Cymru eu cefnogi.
- Caiff £7m ei ddyrannu i greu Cronfa Safleoedd Segur Cymru i rymuso Busnesau Bach a Chanolig i ddatblygu tai ledled Cymru ac i helpu i gyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi yn Seilwaith Cymru a chynyddu'r cyflenwad o dai.
- Caiff £20m ei ddyrannu tuag at ddatblygu Cynllun Datgarboneiddio Addysg Bellach ac Uwch er mwyn i sefydliadau addysg ledled Cymru gael mynediad at gronfeydd hanfodol y mae eu hangen i ariannu prosiectau ynni adnewyddadwy ac i foderneiddio'r seilwaith i leihau'r galw am ynni. Bydd y gronfa hon yn helpu i sicrhau bod ein hymrwymiad i sicrhau bod ymrwymiad sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030 yn cael ei gyflawni.

- Mae dyraniad o gyfalaf FT wedi'i wneud i MEG yr Economi i ddatblygu cais sy'n sensitif yn fasnachol.

4.23 Yn ogystal â'r dyraniadau uchod, mae gan sawl cynnig, yn y MEG Newid Hinsawdd a MEG yr Economi, botensial cryf sy'n gofyn am waith datblygu pellach. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn caniatáu i ddyraniadau pellach o gyfalaf FT gael eu gwneud adeg y Gyllideb Derfynol.

Ail-Iunio Cyllideb 2024-25

4.24 Datblygwyd y Gyllideb Ddrafft hon yn yr amgylchiadau ariannol ac economaidd anoddaf yr ydym wedi'u gweld ers dechrau datganoli, sydd wedi arwain at gyfres o ddewisiadau cyllidebol cyfyng a phoenus iawn.

4.25 Wrth wneud y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r Gweinidogion wedi penderfynu alinio cynlluniau gwario ar gyfer 2024-25 i gyflawni ein blaenoriaethau a diogelu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl. Fel rhan o'r paratodau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2024-25, rydym wedi cynnal ymarfer ailgwmpasu i nodi o ble y gellir rhyddhau cyllid o fewn cynlluniau dangosol, i gefnogi a diogelu gwasanaethau cyhoeddus craidd.

4.26 Gellir gweld y newidiadau yn nyraniadau dangosol 2024-25, fel y'u nodir yng Nghyllideb Derfynol 2023-24, yn [y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb](#). Mae'r cyfansymiau cyllid yn cynnwys y newidiadau hynny a roddwyd ar waith fel rhan o ymarfer y Gyllideb a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ym mis Hydref 2023. Caiff manylion y rhain eu hunioni yn yr Ail Gyllideb Atodol sydd i'w chyhoeddi fis Chwefror 2024.

4.27 Nid oes modd ailffocysu blaenoriaethau heb achosi unrhyw effeithiau. Caiff manylion pellach am y dewisiadau hyn eu hamlinellu fel rhan o ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu priodol yn y Senedd a'u nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (Atodiad A).

Newidiadau gweinyddol

4.28 Rydym yn gwneud nifer o newidiadau gweinyddol rhwng Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) gan ymateb i ystod o faterion i'w cynnwys yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25. Gwnaed y rhain ar sail eithriadol a bydd yr holl newidiadau gweinyddol eraill yn cael eu cofnodi yng Nghyllideb Derfynol 2024-25.

Cyfuno Grantiau i Awdurdodau Lleol

- 4.29** Fel rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol ar yr awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu gwaith hollbwysig o ddarparu gwasanaethau. Ein hawydd i sicrhau nad yw'r awdurdodau lleol yn cael eu llesteirio gan fiwrocratiaeth ddiangen sydd wrth wraidd y gwaith hwn. Er mwyn lleddfu'r pwysau ar lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ar adeg pan fo gwasgu ar adnoddau, gwyddom fod yr angen i nodi, lleihau a chael gwared ar brosesau beichus neu ddiangen a rhoi mwy o hyblygrwydd yn gryfach nag erioed.
- 4.30** Rydym wedi cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol i ddeall beth yw'r materion allweddol, a rheoli grantiau oedd y maes allweddol a nodwyd ar gyfer newid er mwyn sicrhau budd i'r ddwy ochr.
- 4.31** Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r dull gorau o roi grantiau mewn gwahanol feysydd polisi, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Leol ac rydym yn disgwyl amlinellu'r newidiadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Gyllideb Derfynol. Er hynny, cytunwyd ar ddau faes yn gynnar, ym maes Addysg a Phlant a Chymunedau.
- 4.32** Ym maes Addysg rydym am i gymaint o arian â phosibl fynd i'r rheng flaen - i'n hysgolion ac i gefnogi ein hysgolion.
- 4.33** Tynnodd yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru sylw at y cymhlethdod diangen yn ein system, ac mae'r mater wedi'i godi fel rhan o'r trafodaethau ar y llwyth gwaith. Mae'r Adolygiad o Rolau a Chyfrifoldebau Partneriaid Addysg yng Nghymru hefyd wedi tynnu sylw at rwystredigaethau â'r broses ariannu grantiau, y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hi a'r ansicrwydd y mae'n ei achosi i arweinwyr ysgolion
- 4.34** Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn symleiddio'r gwaith o fonitro a gwerthuso ein grantiau, ond mae angen inni gyflymu hyn er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu a'u darparu yn y ffyrdd mwyaf priodol, effeithlon ac effeithiol.
- 4.35** Byddwn, felly, yn cyfuno ein cyllid grant addysg cyn-16 heb ei neilltuo a ddarperir ar hyn o bryd i'r awdurdodau lleol ac i gonsortia a phartneriaethau rhanbarthol. O'r flwyddyn ariannol 2024-25, byddwn yn rhoi'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol i'n hawdurdodau lleol a fydd yn cynnwys elfennau cyllido ar gyfer Safonau Ysgolion, Tegwch, Diwygio a Cymraeg 2050. Rydym yn gobeithio y bydd y trefniadau newydd hyn yn galluogi'r Awdurdodau Lleol i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael i'w ddyrannu i ysgolion, ac yn sicrhau bod prosesau grant yn llai cymhleth, yn fwy tryloyw ac yn osgoi biwrocratiaeth ddiangen. Byddwn yn gweithio gyda'n holl bartneriaid dros yr ychydig fisoedd nesaf cyn y flwyddyn ariannol newydd i sicrhau bod y trefniadau newydd yn ymwreiddio.

- 4.36 O ran Cymunedau, rydym yn trosglwyddo dau grant unigol – Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae a'r Grant Cymorth Rhianta Ymyrraeth Gynnar a Lleihau Gwrthdaro rhwng Rhieni – i gronfa hyblyg y Grant Plant a Chymunedau ar unwaith ar gyfer 2024-25. Mae'r grantiau hyn yn fach ac yn cyd-fynd â chwmpas y Grant Plant a Chymunedau, sy'n fecanwaith ariannu hyblyg, ac sy'n caniatáu i'r awdurdodau lleol wario eu cyllid yn unol â'u blaenoriaethau wrth gyflawni amcanion a thargedau perfformiad Llywodraeth Cymru.
- 4.37 Y bwriad hefyd yw cynnwys rhywfaint o gyllid o'r Rhaglen Hyfforddiant a Chymorth (i gwmpasu hyfforddiant gorfodol, arferion gorau a hyfforddiant i warchodwyr plant) i elfen gofal plant a chwarae'r Grant Plant a Chymunedau yn 2024-25.

Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

Cyllideb gwariant Cymru

- 5.01** Mae gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2024-25 yn cynnwys dyraniadau o £22.6bn i Brif Grwpiau Gwariant (MEGs) Llywodraeth Cymru.
- 5.02** Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd gyntaf yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24, mae tablau sy'n cefnogi'r Naratif Cyllideb Ddrafft hwn i'w gweld yn y tablau llyfr gwaith ffynhonnell ddata agored (ODS) sy'n cefnogi'r cynlluniau gwario, ar dudalen we Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru:

[Tablau sy'n Ategu'r Cynlluniau Gwario](#)

- 5.03** Mae cyhoeddi'r tablau mewn un ddogfen mewn fformat ODS yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r ffordd y cyflwynir data'r Gyllideb a gwneud y data yn agored i bawb.
- 5.04** Mae'r tablau yn y llyfr gwaith ODS yn cynnwys:
- Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru
 - Dyrannu Cyllideb Cymru
 - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru
 - Newidiadau i Dyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru
 - Newidiadau i Dyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru
 - Newidiadau i Dyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru
 - Benthycu Uniongyrchol at Ddibenion Cyfalaf
 - Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a'r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynigion y Gyllideb Ddrafft
 - Tablau ailddatgan 2023-24
 - Tablau ailddatgan 2024-25
 - Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn
 - Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn yn adlewyrchu Addasiadau Datganiad Hydref 2023-24
- 5.05** Mae'r tabl sy'n nodi dyraniadau Cyllideb Cymru yn dangos cydrannau cyllideb gwariant Cymru, wedi'u dadansoddi yn ôl MEG, a chyllidebau dangosol Comisiwn y Senedd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n dangos hefyd gyllid cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu, gan gydnabod y symud i strategaeth gyllidol newydd yn 2023-24 lle y byddwn yn defnyddio cyllid a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i reoli'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, yn lle cynnal cronfa wrth gefn DEL heb ei dyrannu. Mae'r dyraniadau MEG yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym Mhennod 4 ac yn ffurfio ein cyfansymiau rheoli ar gyfer rheoli'r Gyllideb drwy gydol y flwyddyn.

5.06 Mae tablau ychwanegol ar gyfer Cyllideb 2024-25 yn unig. Mae'r rhain yn dangos y newidiadau canrannol sy'n deillio o gymharu ffigurau Cyllideb Ddrafft 2024-25 â Chyllideb Derfynol 2023-24 wedi'i hailddatgan, ond maent hefyd yn cynnwys newidiadau yn ystod y flwyddyn a ddigwyddodd ar 17 Hydref 2023 yn dilyn ailflaenoriaethu cyllidebau 2023-24 gan y Gweinidogion. Mae hyn yn rhoi golwg ychwanegol ar gymharedd.

Categoriâu gwariant

5.07 O fewn dyraniadau'r MEG, ceir gwahanol fathau o wariant a ddefnyddir at wahanol ddibenion:

- Adnoddau cyllidol
- Adnoddau anghyllidol
- Cyfalaf cyffredinol
- Cyfalaf Trafodiadau Ariannol
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol

5.08 Mae'r tablau sy'n dangos crynodebau o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2023-24 yn nodi'r dyraniadau MEG yn ôl y categorïau hyn. Gellir eu gweld drwy ddefnyddio'r ddolen i'r llyfr gwaith ODS a welir ym mharagraff 5.02.

Atodiad A: Aseiad Effaith Integredig Strategol

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal Aseiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) o Gyllideb Llywodraeth Cymru fel rhan o'r cylch cyllideb flynyddol. Diben yr aseiad yw adnabod tueddiadau allweddol, ac effeithiau strategol a chronnol ar lefel portffolio, ar draws amryw o feysydd, gan gynnwys rhoi sylw dyladwy ar draws y gofynion statudol. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol strategol yn lleihau'r effaith anghymesur ar unrhyw un grŵp neu faes penodol; yn helpu i adnabod cyfleoedd i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl a lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae Aseiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.
2. Mae'r broses Aseid Effaith Integredig Strategol yn rhoi sylw dyladwy i'r gofynion statudol a ganlyn:
 - Deddf Cydraddoldeb 2010
 - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
 - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
3. Mae'r broses hefyd yn rhoi sylw dyladwy i'r gofynion anstatudol a ganlyn:
 - Cydraddoldeb
 - Iechyd
 - Cyfiawnder
 - Aseiad Amgylcheddol
 - Bioamrywiaeth
 - Prawfesur Gwledig
 - Y Gymraeg
4. Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r canfyddiadau o'r broses Aseid Effaith Integredig Strategol a amlinellir uchod a dangos sut y bydd Cyllideb 2024-25 yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae ymgymryd â'r aseiad hwn yn broses iteraidd sy'n tynnu ar ystod o wybodaeth ac arbenigedd. Mae Diagram 1 isod yn rhoi trosolwg syml o'r broses sy'n arwain at lunio'r ddogfen hon.

Aseiad Effaith Integredig Strategol: trosolwg syml

Cam 1: Dylid cynnal Aseidau Effaith Integredig fel rhan o'r cylch polisi gan eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau am y gyllideb.

Cam 2: Gweinidogion unigol yn ystyried effaith ar draws portffolios

Cam 2.1: Ynghyd â chyhoeddi'r prif Aseid Effaith Integredig Strategol, mae hefyd yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgorau craffu.

Cam 3: Cyflwyno comisiynau'r gyllideb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEGs) a fydd yn tynnu ar Asesiadau Effaith Integredig a thystiolaeth ehangach sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau Gweinidogion unigol.

Cam 4: Asesu Effeithiau i lywio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol

- Dadansoddiad iteraidd o ystod o ffynonellau tystiolaeth macro i nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau cysylltiedig ac ystyried y ffordd orau o gydweddu cyllid â chanlyniadau i sicrhau gwerth am arian.
- Nodi effeithiau o'r adolygiad iteraidd o bob MEG a nodi unrhyw effeithiau cronol, croestoriadol neu anfwriadol a chyfleoedd posibl i hybu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol.
- Gall Cam 4 arwain yn ôl i Gamau 2 a 3 neu ymlaen i Gam 5.

Cam 5: Y Cabinet yn ystyried dyraniadau'r gyllideb


- Gall Cam 5 arwain yn ôl i Gam 4 neu ymlaen i Gam 6.

Cam 6: Llunio Cyllideb ddrafft ar sail penderfyniadau'r Cabinet.

- Gall Cam 6 arwain yn ôl i Gam 5 neu ymlaen i Gam 7.

Cam 7: Llunio a chyhoeddi Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol

- Yn crynhoi'r effeithiau strategol ar draws ystod o feysydd effaith a gofynion statudol.
- Yn cysylltu'r meysydd a nodwyd â phenderfyniadau strategol am y gyllideb.
- Cyflwyno'r ddogfen ar ffurf atodiad yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddir.
- Gall Cam 7 arwain yn ôl i Gam 6.



5. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn broses ar wahân i Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru, sy'n asesu'r effeithiau ar lefel prosiect neu bolisi unigol. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau o'r farn bod cynnal asesiadau effaith drwy ddull integredig yn ein galluogi i feithrin dealltwriaeth well o effaith penderfyniadau ar wariant, gan geisio deall effeithiau trawstoriadol ac anfwriadol gwariant yn well er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith orau bosibl.
6. Ystyrir amryw o ffynonellau macro-dystiolaeth fel rhan o'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol, gan gynnwys adroddiad Llesiant Cymru, yr adroddiad pum mlynedd ar Dueddiadau'r Dyfodol a'r adroddiad blynyddol ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr). Rydym hefyd yn gweithio gydag unedau tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf. Ystyrir tystiolaeth ffurfiol ac anffurfiol yn briodol fel rhan o'r broses hon, sy'n cynnwys gwaith meithrin cysylltiadau a wnaed gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r Comisiynwyr.
7. Ni fydd y ddogfen hon yn:
 - Darparu asesiadau effaith integredig unigol ar gyfer prosiectau, polisiau a phenderfyniadau penodol.
 - Manylu ar bob un broses benderfynu a/neu ddarn o dystiolaeth a adolygwyd fel rhan o'r broses hon.
 - Darparu rhestr o bob nodwedd neu faes effaith unigol a ystyrir.
8. Ni ddylid darllen y ddogfen hon ar ei phen ei hun. Dylid ei darllen ar y cyd â naratif y Gyllideb Ddrafft a'r dogfennau ategol, fel adroddiad y Prif Economegydd a'n dadansoddiad o effaith ddosbarthiadol wedi'i ddiweddarau. Ar ôl cyhoeddi dogfennau'r Gyllideb Ddrafft byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r holl dystiolaeth Weinidogol i bwyllgorau craffu'r Senedd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion gan bob portffolio Gweinidogol ar y dyraniadau penodol a wnaed, gan gynnwys gwybodaeth am effaith y penderfyniadau. Nid yw'r ddogfen hon ar gael ar hyn o bryd ond bydd ar gael yn adran [Cyllideb Ddrafft 2024-25](#) gwefan Llywodraeth Cymru o ganol mis Ionawr 2024.

Datblygu ein dull o asesu effaith

9. Yn 2022 gwnaethom sefydlu'r Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Nod y grŵp hwn yw meithrin cysylltiadau a dylanwadu ar welliannau i'n prosesau cyllideb a threthi, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb, sydd i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru, ar dudalen y Gyllideb Ddrafft. Rydym yn parhau i ymgynghori â'r grŵp ynghylch sut y gellir gwneud gwelliannau a'r ffordd orau o gyfathrebu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol drwy'r broses gyllideb flynyddol. Mae map trywydd manylach o welliannau i'w weld yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb.
10. Rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau â llywodraethau eraill y gwelir eu bod yn arweinwyr mewn asesu effaith drwy'r Rhwydwaith Llywodraethau Llesiant (WeGo). Mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn y rhwydwaith hwn yn hanfodol i'n cefnogi ni wrth inni esblygu a gwella ein dull o asesu effaith.

11. Bydd y broses o gynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol a chyfathrebu'r broses honno i gynulleidfa ehangach yn un o welliant parhaus, a bydd yn esblygu dros y blynyddoedd nesaf.
12. Hoffem ddiolch eto i'n rhanddeiliaid o'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a Phwyllgor Cyllid y Senedd am ein cefnogi ar y daith hon hyd yma.

Alinio â Datganiad 2023-24

13. Ym mis Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol newidiadau i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 i helpu i reoli gorwariant sylweddol a ragwelwyd mewn rhai meysydd. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r pwysau sylweddol ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus, fel y GIG, a achoswyd gan alw cynyddol, chwyddiant uchel parhaus, pwysau parhaus Covid-19 a chodiadau cyflog y sector cyhoeddus a oedd heb eu hariannu.
14. Fe wnaethom ailflaenoriaethu gwariant i ddarparu £425m ychwanegol i'r GIG a £125m i Trafnidiaeth Cymru. Fe wnaethom weithredu yng nghanol y flwyddyn oherwydd na allem ganiatáu i'r problemau hyn wneud Cyllideb Ddrafft 2024-25 hyd yn oed yn fwy heriol.
15. Gwnaethom gyhoeddi ychwanegiad at yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd adeg Cyllideb Ddrafft 2023-24, yn tynnu sylw at brif effeithiau'r newidiadau hyn. Wrth i gyd-destun 2023-24 esblygu, rydym yn parhau i ddatblygu ac ailadrodd ein hasesiad o effeithiau'r dewisiadau hyn, yn ogystal â lliniaru effeithiau negyddol lle bo modd. Bydd yr holl newidiadau i'n cynlluniau gwario ar gyfer 2023-24 yn cael eu hunioni yn yr Ail Gyllideb Atodol a gyhoeddir ym mis Chwefror 2024, a bydd yr holl fanylion yn cael eu darparu yn y Nodyn Esboniadol cysylltiedig.
16. Mae llawer o'r effeithiau sy'n deillio o'r dull gweithredu hwn yn unigryw i 2023-24. Pan fo effeithiau ar gyfer 2024-25, gweithiwyd ar y rhain fel rhan o Gyllideb ddrafft 2024-25 ac maent wedi'u cwmpasu yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn.

Y Cyd-destun Strategol

17. Mae Pennod 1 a Phennod 4 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer y Gyllideb ddrafft hon a'r penderfyniadau cyffredinol a wnaed. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o rai o'r tueddiadau a'r meysydd effaith allweddol a nodwyd ar draws meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sydd wedi llywio rhai o'r penderfyniadau cyllidebol strategol a wnaed. Darperir asesiad manylach o dueddiadau economaidd a chyllidol yn [Adroddiad y Prif Economegydd](#). Gan fod cynlluniau dangosol hyd at 2024-25 wedi'u cyhoeddi eisoes fel rhan o'n proses Cyllideb ar gyfer 2022-23 a 2023-24, mae'r asesiad hwn yn adeiladu ar yr asesiadau blaenorol.
18. Mae'r rhan fwyaf o'n cyllid yn parhau i ddod yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU fel grant bloc, hyd yn oed ar ôl datganoli rhai pwerau amrywio trethi. Mae hyn yn golygu bod Cymru yn agored i effaith polisi cyllidol Llywodraeth y DU a'r penderfyniadau gwleidyddol sy'n ei ysgogi wrth inni agosáu at Etholiad Cyffredinol.

19. Dros y 13 mlynedd diwethaf, rydym wedi profi cyfnod cyllidol ac economaidd heriol iawn, sydd wedi arwain at ostyngiad mewn termau real yn ein cyllidebau o 2010 ymlaen.
20. Mae'r degawd hwn o gyfyngiadau cyllidol, sy'n cynnwys cyni, effeithiau'r DU yn ymadael â'r UE, y pandemig byd-eang dilynol, effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd ac argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant cysylltiedig sy'n gysylltiedig â'r rhyfel yn Wcráin, wedi gadael gwasanaethau cyhoeddus yn hynod fregus o ran niwed pellach, er gwaethaf popeth yr ydym wedi'i wneud i'w hamddiffyn rhag yr effeithiau gwaethaf. Mae ein cyllideb yn parhau i gael ei heffeithio gan y ffaith fod cyllid yr UE i Gymru yn dod i ben.
21. Mae anghydraddoldebau cyflogaeth, yr argyfwng costau byw, ac effeithiau tlodi, gan gynnwys trais domestig uwch a llesiant meddyliol gwael, yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd â phlant, menywod a phobl anabl a phobl o rai cefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Y plant hynny sy'n dibynnu ar incwm menywod neu incwm pobl anabl sydd â'r risg fwyaf o ddod yn blant sy'n derbyn gofal a chael cyfleoedd bywyd gwael. Felly, mae'r grwpiau hyn yn wynebu'r risg fwyaf os yw'r cyd-destun cyllido yn effeithio ar wasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, megis y rhai sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi.
22. Mae prisiau bwyd yn effeithio'n arbennig ar bobl ar incwm isel, yn dilyn cyfnod o bwysau oherwydd prisiau ynni uwch a chwyddiant uchel parhaus. Hyd yn oed wrth i gyfradd y cynnydd mewn prisiau ostwng, mae grwpiau incwm is yn debygol o barhau i'w chael yn anodd ymdopi ag effaith lefelau prisiau uwch ar eu safonau byw. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dweud y bydd safonau byw 3.5% yn is yn 2024-25 na chyn y pandemig – sy'n cyfateb i'r gostyngiad mwyaf mewn safonau byw ers i gofnodion ddechrau yn y 1950au.
23. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn wynebu effeithiau dwysach yn sgil pandemig Covid-19. Ceir tystiolaeth bod y tarfu ar addysg wedi effeithio ar bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, a bod effeithiau parhaol ar bresenoldeb yn yr ysgol.
24. Mae angen parhaus i weithredu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, gan gydnabod nad yw rhywfaint o'r camau sydd eu hangen o reidrwydd yn cynnwys darparu arian cyhoeddus ychwanegol. Gwnaeth adroddiad cynnydd diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru dynnu sylw at nifer o feysydd lle mae angen ystyried cyfraddau cynnydd, gan gynnwys seilwaith gwefru, plannu coed ac adfer mawndiroedd.
25. Hefyd, mae yna effeithiau sy'n gysylltiedig â'r angen i addasu i'r risgiau a berir gan newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â mynd i'r afael â'r achosion, a pharatoi ar gyfer bygythiadau posibl eraill. Mae hyn yn cynnwys y perygl o lifogydd, a difrod cysylltiedig i adeiladau a seilwaith. Y poblogaethau tlotaf a mwyaf

ymylol sydd fwyaf mewn perygl yn sgil effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd.

26. Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, yn dangos dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth. Rydym yn cydnabod y manteision y mae natur yn eu darparu i bobl, drwy wasanaethau ecosystem megis atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Mae ei cholli yn effeithio ar ddiogelwch a lles pobl, a'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n teimlo'r effeithiau negyddol mwyaf.
27. Mae newid demograffig hefyd yn parhau i fod yn effaith allweddol yn y tymor hwy. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu'r galw am wariant ar iechyd, yn enwedig ar ofal cymdeithasol. Wrth i'r boblogaeth o oedran gweithio ostwng fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth, mae risg i'r sylfaen drethi y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu ohoni.
28. Y realiti yw nad yw ein setliad cyllideb yn ddigonol i gydnabod yr holl effeithiau hyn. Mae Cyllideb ddrafft 2024-25 wedi cyflwyno'r dewisiadau mwyaf cyfyng a phoenus o ran y gyllideb ers datganoli.
29. Pe bai ein cyllideb wedi cadw'n gyson â'r twf yn yr economi ers 2010, byddem wedi cael £3bn yn ychwanegol i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus a chymorth i bobl a busnesau yng Nghymru yn 2024-25.
30. Yn hytrach, rydym yn wynebu gostyngiad mewn termau real yn ein pŵer gwario o hyd at £1.3bn ers i'n cyllideb gael ei gosod yn 2021.

Asesiad cryno

31. Mae ein dull gweithredu yn parhau i fod yn seiliedig ar asesu effeithiau strategol a chronnol y dewisiadau y mae angen inni eu gwneud. Mae ymgymryd â'r dull gweithredu integredig hwn o asesu effeithiau yn ein galluogi i ystyried ein gofynion statudol ac anstatudol yn well, yn benodol: Deddf Cydraddoldeb 2010; Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol; Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; iechyd, cyfiawnder; asesiad amgylcheddol; bioamrywiaeth; prawfesur gwledig a'r Gymraeg.
32. Mae cyfyngder yr amgylchiadau ariannol eithriadol yr ydym yn eu hwynebu wedi golygu bod angen dull gweithredu mwy sylfaenol. Rydym wedi ail-lunio'r dyraniadau gwariant dangosol o fewn ein cyllideb i ddarparu cyllid ac amddiffyniad ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru – y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol a gwasanaethau bob dydd eraill. Rydym wedi gwneud hyn yn unol â'n blaenoriaethau o ran:

- Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl.
 - Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.
 - Blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd.
 - Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.
 - Ailffocysu cyllid i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.
- 33.** Rydym wedi defnyddio'r dull gweithredu hwn i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio cyllid lle gall gael yr effeithiau cadarnhaol mwyaf o dan yr amgylchiadau, a gweithredu i sicrhau ein bod yn lliniaru effeithiau uniongyrchol i bobl a lleoedd, cyn belled ag y bo modd. Mae gwario mwy mewn rhai meysydd yn golygu bod llai i'w wario mewn meysydd eraill. Pan fo angen penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio adnabod y meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'r dewisiadau eraill, ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru effeithiau cyn belled ag y bo modd. O ystyried yr amgylchiadau, ni fu'n bosibl osgoi effeithiau negyddol ym mhob achos.
- 34.** Bydd rhagor o fanylion am y dewisiadau sy'n cael eu gwneud yn cael eu hamlinellu mewn papurau tystiolaeth Gweinidogol priodol i bwyllgorau craffu'r Senedd, a fydd yn rhoi manylion am y dyraniadau penodol a wnaed, gan gynnwys gwybodaeth am effaith penderfyniadau. Y tu hwnt i'r Gyllideb hon, bydd y Gweinidogion yn parhau i ystyried effeithiau'r dewisiadau hyn wrth iddynt gyflawni cynlluniau a rhaglenni.
- 35.** Ar y sail hon rydym wedi dewis blaenoriaethu rheng flaen y GIG a'r gwasanaethau craidd sy'n cael eu rhedeg gan lywodraeth leol o ddydd i ddydd, yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt, megis ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
- 36.** Byddwn yn buddsoddi £450m pellach yn y GIG yn 2024-25, ar ben y £425m ychwanegol y gwnaethom ei ddarparu ym mis Hydref (ar gyfer 2023-24). Mae hyn yn cyfateb i 4% yn 2024-25, o'i gymharu ag 1% ar gyfer y GIG yn Lloegr.
- 37.** Rydym yn diogelu gwariant ar wasanaethau lleol drwy gynyddu'r setliad llywodraeth leol o 3.1%, sef addewid a wnaethom y llynedd.
- 38.** Ond hyd yn oed gyda'r buddsoddiad ychwanegol hwn, bydd byrddau iechyd a chynghorau yn wynebu pwysau sylweddol a dewisiadau anodd wrth reoli eu setliadau yn 2024-25.

Cynnal ein buddsoddiadau presennol

- 39.** Ers inni nodi ein cynlluniau dangosol am y tro cyntaf ar gyfer 2024-25, fel rhan o'n Cyllideb ac Adolygiad o Wariant ar gyfer 2022-23, mae ein dull gweithredu wedi'i gynllunio i sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Er bod angen inni ail-lunio ein cyllideb i ddarparu cyllid ychwanegol ac amddiffyniad ar gyfer y gwasanaethau sydd bwysicaf, rydym wedi gweithredu i gynnal y cynlluniau a osodwyd gennym cyn belled ag y bo modd.

40. Mae'r penderfyniadau a amlinellir yma yn cyfrif am lai na 5% o'n cyllideb flynyddol o £23bn. Rydym yn cynnal buddsoddiadau sylweddol i gydbwysu anghenion tymor byr sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw parhaus wrth geisio parhau, ar yr un pryd, i ysgogi newidiadau tymor hwy a chyflawni ein hymrwymiaadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Cyfalaf

41. Mae ein cynlluniau'n tybio cyfnewid £47.33m o refeniw i gyfalaf i helpu i reoli ein sefyllfa gyffredinol, ond y tu hwnt i hyn, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r dyraniadau cyfalaf cyffredinol amflwyddyn a nodwyd yng Nghyllideb 2022-23 i 2024-25.
42. Fel rhan o'n hadolygiad cwbl gynhwysfawr o gyllid cyfalaf a gynhaliwyd drwy'r Adolygiad o Wariant fel rhan o Gyllideb 2022-23, aethom ati i alinio ein gwariant cyfalaf i gefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Ar y cyd â materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi, mae lefelau chwyddiant cyson uchel yn golygu ein bod wedi gorfod ailbroffilio rhywfaint o'n gweithgarwch i ymdopi o fewn ein setliad. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau hirdymor ein [Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru](#) a'r Cynllun Cyllid Seilwaith cysylltiedig.
43. Yn ogystal, rydym yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein portffolio presennol o fuddsoddiad Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, gan fuddsoddi dros £2.2bn mewn amrywiaeth eang o brosiectau sy'n cefnogi ein busnesau a'n sector tai, sydd o fudd i sawl rhan o'n cymdeithas a'n heconomi. Mae cyfran fawr o'r arian hwn yn cael ei fuddsoddi mewn benthyciadau tymor canolig i dymor hir a buddsoddiadau ecwiti lle y mae benthyciadau tymor byrrach yn cael eu darparu, eu had-dalu ac yna eu hailddarparu i gefnogi busnesau eraill nifer o weithiau cyn i oes y cynllun ddod i ben.
44. Yn y Gyllideb hon rydym yn dyrannu £31.8m i ategu ymhellach y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd.
45. Mae'r dyraniadau ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ar gyfer 2024-25 wedi'u hamlinellu ym Mhennod 4, ac mae manylion pellach wedi'u nodi isod.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

46. Wrth inni ail-lunio ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2024-25, rydym hefyd wedi cael ein harwain gan yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn cynnal ein hymrwymiad i barchu'r egwyddorion hyn wrth inni symud ymlaen ac ystyried ac addasu pan fo angen. Yn y cyd-destun hwn:
- **Hirdymor** – Roedd angen inni weithredu yn y tymor byr i ddiogelu'r gwasanaethau craidd y mae pobl yn dibynnu arnynt i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn y dyfodol.
 - **Atal** – O fewn y setliad eithriadol o heriol, rydym wedi gorfod gweithredu i atal yr effeithiau gwaethaf i wasanaethau craidd. Er na fu modd osgoi'r holl effeithiau negyddol, rydym wedi sicrhau cyn belled â phosibl ein bod yn lliniaru'r effeithiau uniongyrchol i bobl a lleoedd.

- **Integreiddio** – rydym wedi cynnal ein dull o ddeall effeithiau integredig y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud. Wrth ddefnyddio ein cyllid cyfyngedig rydym wedi ystyried ble y gellir dyrannu cyllid i gyflawni'r effaith orau bosibl gan gydbwysu hynny yn erbyn effeithiau negyddol gorfod lleihau cyllid mewn meysydd eraill.
- **Cydweithio** – Wrth inni symud y tu hwnt i'r gyllideb hon byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ehangach i gyflawni ein cynlluniau a'u cefnogi i ymateb i'r heriau a achosir gan y cyd-destun cyllidol hwn.
- **Cynnwys** – Drwy gydol y gyllideb hon rydym wedi ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol gan gynnwys y trydydd sector, yr awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Statudol i ddeall effeithiau'r cyd-destun presennol er mwyn llunio ein cynlluniau gwario.

Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl.

Iechyd

47. Mae'r her ariannol i'r GIG, sy'n gyffredin i holl ardaloedd y DU, yn ymwneud â nifer o ffactorau arwyddocaol:
- Pwysau chwyddiant ar draws pob maes, sydd y tu allan i reolaeth y byrddau iechyd - er enghraifft, tâl,; chwyddiant sy'n ymwneud â thâl, a chwyddiant nad yw'n ymwneud â thâl, gan gynnwys costau meddyginiaethau a chostau cynyddol pecynnau gofal.
 - Galw cynyddol.
 - Triniaethau mwy costus a chymhleth.
48. Mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu galw cynyddol am ei wasanaethau ar adeg pan fo costau gofal – staffio a thriniaeth – yn cynyddu. Yng Nghymru, bob mis mae 2 filiwn o bobl yn cael cysylltiad â'r GIG, a hynny mewn poblogaeth o 3 miliwn o bobl. Mae 1.5 miliwn o bobl yn cael cyswllt â gwasanaethau gofal sylfaenol bob mis a phob blwyddyn mae 1.5 miliwn o bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gofal eilaidd ar gyfer triniaeth neu brofion pellach.
49. Byddwn yn buddsoddi £450m pellach yn y GIG yn 2024-25, ar ben y £425m ychwanegol y gwnaethom ei ddarparu ym mis Hydref (ar gyfer 2023-24). Mae hyn yn cyfateb i 4% yn 2024-25, o'i gymharu ag 1% ar gyfer y GIG yn Lloegr.
50. Rydym yn disgwyl i'r rhagolygon ariannol ar gyfer y GIG y flwyddyn nesaf fod ymhlith y mwyaf heriol yr ydym erioed wedi'u hwynebu. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu i liniaru'r effeithiau mwy difrifol ar wasanaethau rheng flaen, gofal cleifion, mynediad a thargedau perfformiad. Drwy fuddsoddi mwy yn y GIG, rydym yn anelu at wrthbwysu'r effeithiau mwyaf difrifol ar draws pob rhan o Gymru a darparu amddiffyniad i bawb, gan gynnwys plant, pobl anabl, pobl hŷn a phobl agored i niwed.

51. Er ein bod wedi ailgyfeirio cyllid o bob rhan o Lywodraeth Cymru, mae hyn yn dal i olygu y bydd byrddau iechyd yn wynebu rhai penderfyniadau heriol er mwyn rheoli o fewn eu cyllidebau unigol. Bydd pob penderfyniad gan y byrddau iechyd yn destun asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, penderfyniadau ar gydbwysedd risg ac ymgynghoriadau posibl, os bydd penderfyniadau'n arwain at newid i wasanaethau. Mae pob bwrdd iechyd yn wynebu heriau gwahanol o safbwynt angen y boblogaeth a chyfluniad gwasanaethau. Bydd y camau a gymerir i reoli unrhyw bwysau costau yn amrywio yn ôl sefydliad a byddant yn destun penderfyniad lleol.

Effeithiau ar gyllidebau iechyd ehangach

52. Yn ogystal â'r gwaith ar draws Llywodraeth Cymru i ailgynllunio cyllidebau i ddarparu £450m yn ychwanegol i'r GIG, caiff y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei ddiwygio i ryddhau mwy o gyllid i helpu i wrthbwysu'r pwysau ychwanegol sy'n ein hwynebu.
53. Wrth flaenoriaethu cyllid i'r GIG, rydym wedi adolygu'r holl gyllidebau a ddelir yn ganolog mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedi ailgyfeirio cyllid o sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys cyllidebau camddefnyddio sylweddau. Wrth inni ddiogelu darpariaeth graidd, rydym wedi ailflaenoriaethu cyllid o raglen ysgolion heddlu Cymru, sy'n darparu cymorth ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein a llesiant personol.
54. Byddwn yn parhau i ddiogelu'r swm sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl y GIG, sy'n darparu cymorth craidd i wasanaethau iechyd meddwl ledled Cymru, gan gynnwys i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Ond ni allwn gynyddu £15m ar gyllid yn 2024-25 bellach, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Rydym hefyd wedi lleihau swm pellach o £6m ar y gyllideb ganolog bresennol ar gyfer iechyd meddwl.
55. Nid ydym wedi gallu ariannu rhai polisïau atal iechyd yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Mae'r rhain wedi'u targedu at bobl sydd naill ai'n smygu neu'n byw gyda gordewdra, ac o ran cyfran mae mwy o bobl yn ein cymunedau llai cyfoethog yn y grwpiau hyn. Rydym wedi ailffocysu £3m o wariant o'r maes hwn. Er hynny, rydym yn cydnabod y gallai peidio â gallu cynyddu'r cyllid yn unol â'r galw effeithio ar gapasiti gwasanaethau atal megis rhoi'r gorau i smygu, rheoli pwysau a chymorth ymarfer corff.
56. Rydym yn ailflaenoriaethu cyllid o £22m o gyllid o'n cyllidebau diogelu iechyd, sy'n cefnogi ystod eang o fesurau sy'n anelu at ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau iechyd posibl. Drwy ailflaenoriaethu, byddwn yn cryfhau'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd wedi'u targedu, gan gynnwys cynllunio brys, ac yn dyrannu cyllid yn uniongyrchol i'r GIG i gefnogi gwasanaethau rheng flaen.
57. Gan fod ein cyllideb o dan bwysau mor eithafol, bydd angen inni ystyried yn ofalus a allai ac a ddylai cyllid ychwanegol gael ei godi drwy gynyddu taliadau am ystod o wasanaethau wrth inni barhau i sicrhau ein bod yn diogelu'r rhai sydd leiaf abl i fforddio taliadau uwch. Mae refeniw o godi tâl yn cael ei gadw gan wasanaethau cyhoeddus.

58. Mae pobl yng Nghymru eisoes yn talu ffioedd am ystod o wasanaethau, gan gynnwys gofal deintyddol y GIG, gofal cartref a ffioedd dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r rhain wedi'u pennu ar lefel is nag yn Lloegr ac mae ystod o esemptiadau ar gael i bobl ar incwm isel ac i'r rhai sydd ar fudd-daliadau. Os penderfynwn gynyddu costau, caiff cynigion eu cyflwyno at ddibenion ymgynghori.

Gofal Cymdeithasol

59. Rydym wedi ailflaenoriaethu £11m o'r Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, a fydd yn arwain at effeithiau ar yr awdurdodau lleol a phartneriaid gofal cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod gweithgarwch presennol yn parhau i gael ei gyflawni, gan gynnwys diogelu gwariant ar gael gwared ag elw yng ngofal plant sy'n derbyn gofal, rydym yn adolygu gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio ac yn archwilio effeithlonrwydd ac yn ailgwmpasu gweithgarwch tan 2025-26. Rydym hefyd yn diogelu'r setliad craidd llywodraeth leol, sy'n ariannu gofal cymdeithasol.
60. Rydym wedi adolygu cyllid o'n cyllidebau Buddsoddi i Arbed gan gynnwys cyllid i blant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn parhau i gefnogi'r cynlluniau yr ydym eisoes wedi ymrwmo iddynt yn 2024-25, sef cyfanswm o £3.8m ond ni fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â chynlluniau pellach sydd wedi'u cynllunio.

Llywodraeth Leol

61. Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r setliad craidd llywodraeth leol drwy gynnal y cynnydd arfaethedig o 3.1% rhwng 2023-24 a 2024-25.
62. Mae'r awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, a hynny'n aml i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i bobl sydd o dan anfantais yn economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sylweddol i blant, drwy addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac ystod eang o wasanaethau i oedolion a allai fod yn wynebu heriau yn eu bywydau bob dydd, drwy wasanaethau cymdeithasol, cymorth tai a gwasanaethau cymunedol eraill. Mae 66% o adnoddau'r awdurdodau lleol yn cael eu neilltuo ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol.
63. Drwy gymryd y camau hyn, ein nod yw diogelu, cyn belled â phosibl, y cyllid craidd ar gyfer ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, casgliadau biniau a gwasanaethau hamdden lleol. Er hynny, rydym yn cydnabod y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, oherwydd chwyddiant uchel parhaus, pwysau cyflog, costau ynni uchel a galw cynyddol am wasanaethau. Bydd angen i gynghorau lleol wneud dewisiadau anodd, a allai gael effaith ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Wrth wneud penderfyniadau, bydd angen i'r awdurdodau lleol ystyried effeithiau eu dewisiadau o dan y gofyniad statudol sy'n ymwneud â llywodraeth leol.

Ysgolion

64. Mae'r amddiffyniad yr ydym wedi'i roi i'r setliad cyllid llywodraeth leol craidd yn golygu ein bod hefyd wedi diogelu cyllid ysgolion, cyn belled â phosibl. Er hynny, o gofio maint y pwysau sy'n ein hwynebu, ni fu modd osgoi'r holl effeithiau ar bobl ifanc. Rydym wedi gweithredu i leihau'r effeithiau hyn cyn belled â phosibl o fewn y cyllid sydd ar gael.

65. Mae ysgolion yn parhau i weithredu mewn cyd-destun heriol ac yn rheoli effeithiau parhaus pandemig Covid-19, gan gynnwys lefelau absenoldeb parhaus ac uchel; ymddygiad mewn ystafelloedd dosbarth; materion iechyd meddwl a llesiant.
66. Rydym yn gweithio ar leihau'r baich gweinyddol ar yr awdurdodau lleol ac ysgolion drwy ddarparu mwy o eglurder a thryloywder yn achos cyllid ysgolion/addysg drwy resymoli a chyfuno ein grantiau. Bwriad y dull hwn yw rhoi'r hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol dargedu eu cyllid, a ddylai helpu i gynllunio a gweithredu'n well, yn hytrach na'u cyfyngu i weithgarwch penodol o fewn terfynau gwariant y gweithgarwch hwnnw.
67. Fel rhan o'n Grant Safonau Ysgolion newydd, rydym wedi cynyddu'r cyllid i'r awdurdodau lleol i liniaru bwriad i dapro cyllid mewn perthynas â'n rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau, -a sefydlwyd i helpu dysgwyr i oresgyn effeithiau negyddol y pandemig. Rydym hefyd yn diogelu cyllid a oedd yn rhan o'r Grant Datblygu Disgyblion wrth resymoli cyllid mewn Grant Tegwch mewn Addysg hollgynhwysfawr i wneud ein gorau glas i amddiffyn ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi o ran cyrhaeddiad addysgol.
68. Bydd y cyllid Safonau Ysgolion newydd yn ein Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn diogelu cyllid mewn perthynas â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a sefydlwyd i helpu dysgwyr i oresgyn effeithiau negyddol y pandemig. Rydym hefyd yn diogelu'r cyllid Grant Datblygu Disgyblion sy'n ariannu ysgolion i gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel, o dan ein hamcanion cyffredinol ar gyfer tegwch mewn addysg.
69. Roedd disgwyl i'n rhaglen lwyddiannus i adfer ar ôl Covid, 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau', gael ei thapro yn y gyllideb hon wrth i'r effeithiau ôl-bandemig leihau. Er hynny, gwyddom fod effeithiau'r pandemig yn parhau i fod yn niweidiol i'n dysgwyr ledled Cymru felly rydym yn diogelu'r cyllid hwn er mwyn parhau i'w cefnogi.
70. Mae cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i ysgolion wedi cael blaenoriaeth. Ar gyfer 2024-25 mae cyfuno grantiau addysg cyn-16 yn darparu'r un lefel o gyllid o'u cymharu â grantiau tebyg a ddarparwyd i'r awdurdodau lleol yn 2023-24; mae hyn hefyd yn gynydd o 3.2% o'i gymharu â chyllideb ddangosol 2024-25 ar gyfer yr un grantiau.
71. Rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a gyfeirir at yr awdurdodau lleol fel rhan o'r Grant Diwygio Addysg newydd, i gefnogi'r gwaith parhaus o roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) ar waith, gan gydnabod pwysigrwydd effaith gymharol y cyllid hwn. O ganlyniad i dargedu'r adnoddau sydd ar gael yn ofalus, rydym wedi gweithredu i gyfyngu ar effeithiau gostyngiadau i gyllidebau diwygio'r cwricwlwm drwy ddiogelu cyllid uniongyrchol i ysgolion i gefnogi diwygio'r cwricwlwm drwy'r Grant Diwygio Addysg newydd.
72. Rydym wedi ailflaenoriaethu £10m o gyllidebau cyfalaf addysg i ddarparu lle i newid o gyfalaf i refeniw yn 2024-25. Er mwyn lleihau effeithiau'r newid hwn mewn dyraniad byddwn yn blaenoriaethu prosiectau craidd o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

73. Er mwyn parhau i gefnogi gwelliannau i'n hystad addysgol, rydym yn darparu swm pellach o £2.8m mewn Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn ein rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i hwyluso cyfleusterau newydd ychwanegol ar ben y rhai y gellir eu cefnogi drwy ein cyllideb cyfalaf gyffredinol.

Addysg Bellach

74. Rydym wedi ailflaenoriaethu £12.9m o'r ddarpariaeth ôl-16. Mae'r sector Addysg Bellach yn parhau i wynebu pwysau sylweddol sy'n effeithio ar ddarpariaeth alwedigaethol, ond roedd angen inni gydbwysu'r rhain yn erbyn yr angen i ddiogelu cyllid craidd ar gyfer ysgolion, gan gydnabod yr effeithiau cymharol i bobl ifanc.
75. Er ein bod wedi gweithredu i ddiogelu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc 16 i 19 oed, rydym yn ailflaenoriaethu £7.2m o Gyfrifon Dysgu Personol. Bydd hyn yn effeithio ar ein hymrwymiad i gynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu. Rydym yn gweithio i leihau'r effaith drwy brif ffrydio darpariaeth mewn darpariaeth ran-amser, gan ganolbwyntio ar y pynciau a gaiff yr effaith fwyaf cadarnhaol a chan fynd i'r afael â'r blaenoriaethau o fewn yr economi. Drwy wneud hyn, ein nod yw sicrhau bod y cyllid yn parhau i ganolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus a hynny mewn meysydd a fydd yn cael effaith hirdymor gynaliadwy.
76. Er mwyn cefnogi'r sectorau Addysg Bellach ac Uwch, rydym yn darparu Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £20m tuag at ddatblygu Cynllun Datgarboneiddio Addysg Bellach ac Uwch. Bydd hyn yn rhoi mynediad i sefydliadau addysg at gronfeydd hanfodol i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ac i foderneiddio seilwaith i leihau'r galw am ynni. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein hymrwymiad i wneud sector cyhoeddus Cymru yn sero net erbyn 2030 yn cael ei gyflawni.

Addysg Uwch

77. O ganlyniad i'r galw diweddaraf a ragwelir, rydym yn ailflaenoriaethu cyllid o £53.9m o grantiau cymorth i fyfyrwyr. Er hynny, ni fydd hyn yn arwain at effaith uniongyrchol ar lefel y cymorth cynhالياeth a ddarperir i fyfyrwyr israddedig.
78. Wrth weithredu i ddiogelu cymorth cyn belled â phosibl i fyfyrwyr israddedig rydym yn ailflaenoriaethu £9.6m o grantiau ôl-raddedig ond yn newid i ddarparu cymorth yn unig drwy fenthyciadau i fyfyrwyr newydd o'r flwyddyn academaidd 2024/25.
79. Rydym yn ailflaenoriaethu £3.2m o'n bwrsariau cymhelliant ôl-raddedig ar gyfer myfyrwyr Meistr ôl-raddedig sy'n byw yng Nghymru, i ddiogelu cyllid addysg craidd. Rydym yn cydnabod bod y cyllid hwn o fudd anghymesur i fenywod a'i fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hyfforddiant mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth. Gallai hyn effeithio hefyd ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn monitro effeithiau'r newid hwn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r effaith fwyaf o fewn y cyllid sydd ar gael.
80. Rydym yn ailgyfeirio £1.6m o'r rhaglen Taith a fydd yn effeithio ar gyfleoedd dysgu rhyngwladol i ddysgwyr a staff ledled Cymru. Caiff y gyllideb sy'n weddill ei blaenoriaethu i gefnogi prosiectau o'r gwerth mwyaf.

Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd.

81. Mae angen inni wneud penderfyniadau anodd ar wariant sefydliadol a chostau rhedeg Llywodraeth Cymru ei hun. Fel sefydliadau eraill, rydym yn parhau i wynebu amrywiaeth o bwysau chwyddiant. Mae amrywiaeth o opsiynau yn cael eu hystyried i reoli ein costau rhedeg ein hunain, gan gynnwys ymchwilio i sut y gallwn resymoli a/neu wneud y gorau o'n hystâd yn well, er enghraifft drwy wahodd partneriaid y sector cyhoeddus i gydleoli ar ein hystâd i gynhyrchu incwm. Bydd angen inni adolygu hefyd sut yr ydym yn alinio ein gweithlu â'r blaenoriaethau a bennwyd gan y Gweinidogion, gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n hundebau llafur.
82. Er ein bod wedi diogelu cyllidebau Arolygiaeth Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Plant Cymru ac Estyn, bu angen inni wneud dewisiadau anodd yn y cyllidebau ar gyfer ein Cyrff Hyd Braich. Nid dewis yr ydym yn ei wneud ar chwarae bach yw hwn. Dewis angenrheidiol ydyw i ddiogelu gwasanaethau craidd. Wrth i'r cyrrff hyn fwrw ymlaen â'u setliadau newydd, byddwn yn gweithio'n agos â hwy i reoli'r effeithiau hyn.

Y Gymraeg

83. Rydym wedi gweithio'n galed i gyfyngu ar yr effeithiau ar gyllid ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys cynnal cyllid sy'n gysylltiedig â Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a chyllideb y Gymraeg mewn Addysg. Er ein bod yn ailflaenoriaethu £3.5m o gyllid sy'n gysylltiedig â'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol, rydym yn cynnal cyllidebau ar lefelau 2023-24 i amharu cyn lleied â phosibl ar y sector Gymraeg ac i osgoi gwneud gostyngiadau ar draws pob maes. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ailbroffilio a'i ystyried yng nghyd-destun y mecanweithiau sy'n cael eu datblygu ar gyfer ymrwymadau ariannol parhaus o dan y Cytundeb Cydweithio, fel y nodir ym mhennod 1 y prif naratif.
84. Byddwn yn gweithio gyda'r cyrrff hynny yr effeithir arnynt i ymchwilio i liniaru'r effeithiau hyn a chefnogi camau gweithredu i gynnal darpariaeth cyrsiau am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed a'r gweithlu addysg.

Yr Amgylchedd

85. Fel rhan o Gyllideb 2022-23, dyrannwyd buddsoddiadau cyfalaf wedi'u targedu o £1.8bn hyd at 2024-25 mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym yn cynnal y buddsoddiadau cyfalaf hyn. Er hynny, mae chwyddiant cyson o uchel wedi effeithio ar y cynlluniau, ac mae angen inni ystyried yn ofalus pa weithgarwch y gallwn ei ddiogelu o fewn ein cyllidebau refeniw cyfyngedig.
86. Rydym wedi ailflaenoriaethu £8.5m o reoli perygl llifogydd a'r polisi dŵr. Mae hyn yn ostyngiad o £0.5m mewn cyllid o'i gymharu â lefelau 2023-24. Byddwn yn monitro'r effeithiau i'n parodrwydd a'n hymateb i reoli perygl llifogydd yn ofalus.
87. Rydym wedi ailffocysu £2.7m o refeniw a chyfalaf o £1m o'n rhaglenni Coedwigaeth, gan ailbroffilio darpariaeth y Goedwig Genedlaethol tra'n diogelu ein cynllun creu coetiroedd.

88. Rydym wedi rhyddhau £3m o'n cyllidebau Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol sy'n effeithio ar gymorth i wasanaethau rheng flaen mewn awdurdodau lleol a chyllid ar gyfer hybiau trwsio ac ailddefnyddio mewn trefi. Dros amser, bydd cyflwyno diwygiadau estynedig ym maes cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn trosglwyddo rhai o gostau gwasanaethau gwastraff i gynhyrchwyr ac yn lleihau'r gost sy'n cael ei chodi ar y sector cyhoeddus. Mae gwaith ar y diwygiadau hyn yn parhau, gan weithio ar draws pedair gwlad y DU, ond nid ydynt wedi cyrraedd y pwynt lle mae baich y gost wedi symud eto.
89. Rydym wedi rhyddhau £1.5m o gyllidebau Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion drwy ailbroffilio'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Nod y rhaglen yw gwella cyflwr, cysylltedd a chadernid safleoedd gwarchoddedig. Bydd y buddsoddiad yn parhau y flwyddyn nesaf ond ar raddfa lai. Rydym hefyd wedi rhyddhau cyllid ar gyfer prosiectau morol (£0.25m), ansawdd aer (£0.25m) ac wedi ailbroffilio rhywfaint o wariant ar ddiogelwch tomenni glo (£0.7m).

Sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf.

90. Bu rhaid inni wneud penderfyniadau eithriadol o anodd i ailffocysu ein cynlluniau gwario ar y gwasanaethau cyhoeddus sydd bwysicaf i bobl – sef y GIG a gwasanaethau bob dydd a ddarperir gan gynghorau lleol, megis ysgolion a gofal cymdeithasol. Yn anffodus, mae hyn yn golygu ailgynllunio rhai o'n cyllidebau adrannol mewn ffordd radical.

Cyfiawnder Cymdeithasol

91. O fewn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol, rydym yn diogelu meysydd cymorth allweddol ac yn cynnal cymorth brys i bobl sydd wedi'u bwrw galetaf gan yr argyfwng costau byw parhaus. Er hynny, i gyflawni hyn, bu rhaid inni ailffocysu cyllid i ffwrdd o weithgareddau lle mae Llywodraeth Cymru wedi camu i'r adwy i ariannu meysydd polisi heb eu datganoli i wneud iawn am ddiffygion Llywodraeth y DU.
92. Rydym wedi cymryd camau i gynyddu'r cyllid ar gyfer ein Peilot Incwm Sylfaenol o £3.5m i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r taliad incwm sylfaenol heb leihau naill ai'r swm sy'n cael ei dalu na hyd y taliad. Bydd hyn yn parhau i gefnogi mwy na 600 o bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd wedi'u cofrestru ar y cynllun peilot.
93. Rydym yn cynnal y cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn £38.5 miliwn o gofio arwyddocâd y gronfa hon wrth gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf difreintiedig, ar y cyrion a/neu'n agored i niwed ac y mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n arbennig arnynt. Rydym hefyd wedi diogelu ein cymorth ar gyfer gwasanaethau cynghori. Mae'r penderfyniad i ddiogelu'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl yn 2024-25 yn golygu y bydd pobl sydd fwyaf difreintiedig a/neu sydd ar y cyrion yn dal i allu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i gynyddu eu hincwm a rheoli eu dyledion.

94. Wrth ailflaenoriaethu £4.1m, rydym wedi gweithredu i gynnal y gwaith o gyflawni yn fras yn erbyn yr holl ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu a gefnogir o fewn y cyllidebau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol a Chymunedau Cydlynus. Byddwn yn rhesymoli ac yn canolbwyntio cynlluniau grant, gan anelu at ddarparu cymorth ar draws yr un ystod o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn canolbwyntio cyllid lle y caiff yr effaith fwyaf ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu a hyrwyddo hawliau dynol. Rydym yn cydnabod y gallai'r ailflaenoriaethu hwn effeithio ar allu sefydliadau cydraddoldeb y trydydd sector i gyflawni yn enwedig i bobl â nodweddion gwarchoddedig. Byddwn yn cydweithio'n agos â sefydliadau'r trydydd sector i liniaru'r effeithiau hyn cyn belled â phosibl.
95. Rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer y gyllideb Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn £8m oherwydd cynnydd yn y galw yn erbyn y gyllideb hon ac o gofio pwysigrwydd amddiffyn y rhai sy'n dioddef VAWDASV rhag niwed corfforol, emosiynol a meddyliol yn ogystal â newid agweddau a diwylliant.
96. Rydym hefyd wedi diogelu gweithgareddau allweddol o fewn cyllidebau eraill gan gynnwys cymorth bwyd brys a rhywfaint o gyllid ar gyfer cymorth tanwydd brys drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd o fewn y gyllideb Cefnogi Cymunedau. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i ddarparu lefel o gymorth brys i'r rhai nad ydynt yn gallu ychwanegu at eu mesuryddion trydan rhagdal y flwyddyn nesaf ac i gefnogi prynu tanwydd mewn swmp i bobl nad ydynt ar y grid nwy ac na allant fforddio talu am danwydd. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith pwysig i roi ein strategaeth Tlodi Plant ar waith.
97. Rydym yn ailflaenoriaethu £1m o gyllidebau seilwaith y trydydd sector. Er ein bod wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n darparu'r cymorth uniongyrchol mwyaf i bobl, mae hyn wedi golygu nad ydym wedi gallu amddiffyn pob maes. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn effeithio ar gymorth gwirfoddoli ac y bydd angen ailbroffilio gweithgarwch i gefnogi cadernid o fewn y trydydd sector. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r sector i wneud ein gorau glas i liniaru'r effeithiau hyn, gan gydnabod y bydd ailflaenoriaethu cyllid ar draws yr holl bortffolios yn effeithio ar lawer o sefydliadau'r trydydd sector, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nid dim ond y cyrff cymorth sy'n rhan o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol).
98. Rydym yn ailflaenoriaethu £1m o'r cyllid a ddarperir i Cymunedau Digidol Cymru, a fydd yn golygu lleihau gweithgarwch sy'n anelu at wella sgiliau digidol a mynediad sy'n galluogi pobl i gael mynediad gwell at ystod o wasanaethau ar-lein a chyfleoedd cyflogaeth. Rydym yn ymwybodol bod y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol yn fwy tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol a byddwn yn gweithio i liniaru'r effeithiau negyddol lle bo modd.
99. O ganlyniad i newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Banc Cymunedol, rydym yn gallu adleoli cyfalaf o £1.75m yn 2024-25 tra bo cynlluniau newydd yn cael eu datblygu. Mae hyn wedi ein galluogi i ddarparu cymorth cyfalaf i sawl maes yn 2024-25, gan gynnwys y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a'r cynnig Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuentid i wella cyfleusterau mewn cartrefi diogel i blant, yn ogystal â chostau cyfalaf ar gyfer y Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant.

Tai ac Adfywio

100. Rydym am sicrhau bod gan bawb yng Nghymru le addas i'w alw'n gartref.
101. Rydym wedi diogelu gwasanaethau cymorth rheng flaen gan gynnwys y Grant Cymorth Tai a gwasanaethau Gofal a Thrwsio.
102. Er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael ei hepgor, rydym hefyd wedi diogelu cynnydd yn y gyllideb Atal Digartrefedd. Mae'r cynnydd o £2m yn cael ei ostwng o gynnydd blaenorol o £5m yn y dyraniadau dangosol, gan adlewyrchu'r cylch pennu'r gyllideb hynod o heriol eleni.
103. Ochr yn ochr ag atal mae angen mwy o gartrefi.
104. Rydym wedi diogelu ein buddsoddiad cyfalaf mewn cartrefi, gan gefnogi ein hymgyrch i gael mwy o gartrefi drwy adeiladu o'r newydd, caffael, lesio, datblygu llety trosiannol o ansawdd uchel a dechrau defnyddio cartrefi gwag eto.
105. Mae ailbroffilio cyllid tai gwag yn golygu y byddwn yn parhau â'r rhaglen yn 2025-26 (blwyddyn ychwanegol) gan gyflawni'r ymrwymiad i fuddsoddi hyd at £50m yn ystod y rhaglen, gan sicrhau bod 2000 o gartrefi yn cael eu defnyddio eto.
106. Mae gennym lwybr at waith adfer ar gyfer pob adeilad trwy Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru.
107. Gall yr amserlen ar gyfer y gwaith cymhleth hwn fod yn hir felly mae'r proffil diwygiedig - sef rhyddhau cyfalaf o £37m yn 2024-25 ar gyfer newid i refeniw - yn sicrhau bod gennym y swm cywir o arian ym mhob blwyddyn i dalu cost gwaith wedi'i gwblhau. Rydym wedi llwyddo i flaenoriaethu gwaith i ryddhau cyllid refeniw o £2m
108. Nid yw hyn yn ostyngiad yn yr ymrwymiad yn y gyllideb i'r gwaith hwn ond yn hytrach newid proffil cyllidebol sy'n adlewyrchu'n agosach pryd y bydd taliadau'n ddyledus.
109. Yn olaf, er ein bod wedi diogelu ein cyllid adfywio craidd, bu angen inni adolygu'r ffordd y darperir ein rhaglenni er mwyn galluogi £1m i gael ei ailflaenoriaethu. O gofio pwysigrwydd cynnal buddsoddiadau adfywio wedi'u targedu ac effeithiol, byddwn yn monitro'r gwaith o gyflawni ein cynlluniau adfywio presennol ac yn y dyfodol yn ofalus.

Wcráin

110. Rydym yn ailflaenoriaethu £15.5m o raglen Wcráin oherwydd y gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid ochr yn ochr â llwyddiant ein rhaglen i symud pobl ymlaen o'u llety cychwynnol. Drwy gymryd y camau hyn gallwn barhau i gyflawni rhai o elfennau allweddol y rhaglen a pharhau i gefnogi pobl o Wcráin i symud i lety tymor hwy fel rhan o'u cymunedau lleol. Ar hyn o bryd, nid yw cyllideb Wcráin yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyllid grant i'r awdurdodau lleol. Er hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Cronfa Atal Digartrefedd gwerth £120m a ddarperir yn lle tariffau blwyddyn dau a thri yn 2024-25. Bydd Llywodraeth Cymru'n cael cyfran gymesur o'r cyllid hwn a gaiff ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol i helpu'r broses symud ymlaen, integreiddio ac i atal digartrefedd yn ystod 2024-25.

Plant a Theuluoedd

111. Yn seiliedig ar y galw diweddaraf a ragwelir am ein cynnig Gofal Plant, rydym yn ailflaenoriaethu £11.2m, heb unrhyw effaith uniongyrchol disgwylidig i'r ddarpariaeth. Rydym yn ailflaenoriaethu cyllid o £7m o'n Grant Plant a Chymunedau sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar a gweithgareddau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Er bod y Grant Plant a Chymunedau yn dal i ddarparu cyllid o £171.4m, byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i liniaru effeithiau ailflaenoriaethu cyllid.
112. Rydym hefyd yn ailffocysu ein rhaglen Bwndel Babi gan ryddhau £3.5m. Rydym yn symud o fod yn fodel cyffredinol i fodel wedi'i dargedu'n fwy i sicrhau y gall gyrraedd y rhieni hynny y mae arnynt angen cymorth fwyaf.

Blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd

Ardrethi Annomestig

113. Rydym yn cydnabod bod busnesau a thalwyr ardrethi eraill yn parhau i brofi pwysau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, yn enwedig oherwydd cyfraddau chwyddiant sy'n gyson uchel a'r cynnydd ar ôl cynnydd yn y gyfradd llog a gyflwynwyd gan Fanc Lloegr eleni oedd â'r nod i ostwng chwyddiant.
114. Rydym wedi penderfynu rhoi cap o 5 y cant ar y cynnydd i'r lluosydd ardrethi annomestig (NDR) ar gyfer 2024-25, ar gost flynyddol reolaidd o £18m. Mae hyn yn is na'r cynnydd o 6.7 y cant a fyddai fel arall yn berthnasol oherwydd chwyddiant diofyn y lluosydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a bydd o fudd i bob talwr ardrethi nad yw eisoes yn cael rhyddhad llawn. Dyma'r lefel uchaf o gymorth fforddiadwy gan ddefnyddio'r holl gyllid canlyniadol a ddaeth i Gymru o ganlyniad i benderfyniadau a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref Llywodraeth y DU.
115. Ni fydd cynnydd yn y lluosydd yn effeithio ar bron i hanner y talwyr ardrethi, gan gynnwys miloedd o fusnesau bach ledled Cymru, gan fod ein system hael o ryddhadau llawn yn golygu nad ydyn nhw'n talu ardrethi o gwbl.
116. Byddwn hefyd yn buddsoddi £78m yn ychwanegol i ddarparu pumed flwyddyn yn olynol o gefnogaeth i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gyda'u biliau ardrethi annomestig. Mae hyn yn adeiladu ar y bron i £1bn o gymorth a ddarparwyd drwy ein cynlluniau rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21.
117. Bydd talwyr ardrethi cymwys yn derbyn rhyddhad NDR o 40% yn ystod 2024-25. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd y rhyddhad yn cael ei gapio ar £110,000 fesul busnes ledled Cymru. Ni fwriadwyd i'r rhyddhad dros dro hwn barhau am gyfnod amhenodol ac wrth inni fynd ati i gynnal ailbrisiadau'n amlach, byddwn yn sicrhau y bydd biliau NDR yn adlewyrchu'n well amodau'r farchnad gyfredol ar gyfer pob sector o'r sylfaen dreth.
118. Byddwn yn parhau i gefnogi talwyr ardrethi y mae eu hatebolrwydd yn uwch yn dilyn ailbrisiad NDR 2023. Mae ein cynllun rhyddhad trosiannol yn parhau i gyflwyno newidiadau yn raddol ar gyfer talwyr ardrethi cymwys ar gost o £38m yn 2024-25.

119. O 2024-25, bydd y system NDR hefyd yn cynnwys mesurau newydd i gefnogi talwyr ardrethi sy'n buddsoddi mewn gwelliannau i eiddo ac ynni adnewyddadwy.
120. Bydd y mesurau hyn i gyd yn darparu £134m o gymorth ychwanegol ar gyfer 2024-25. Ar y cyd â'n cynlluniau rhyddhad parhaol a ariennir yn llawn, sy'n werth £250m i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill bob blwyddyn, bydd £384m yn cael ei wario yn 2024-25 ar gymorth ardrethi annomestig.

Prentisiaethau

121. Er mwyn gallu byw o fewn ein setliad cyllido ac i ddarparu ar gyfer colli cyllid yr UE, bu'n rhaid inni adolygu ein gallu i gyflawni ein targed ar gyfer prentisiaethau. Rydym wedi adolygu'r hyn y gallwn ei gyflawni ac wedi addasu ein cyllid yn unol â hynny.
122. O ganlyniad i ailflaenoriaethu £5m o gyllid, mae disgwyl inni nawr sicrhau 110,000 o brentisiaethau newydd. Er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu'r meysydd cyllido mwyaf eu heffaith hynny, byddwn yn parhau â'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr ar gyfer dysgwyr anabl a byddwn yn darparu cymorth yn y gwaith i'r garfan hon i'w galluogi i gwblhau eu rhaglen brentisiaeth yn llwyddiannus. Rydym hefyd yn cynnal Prentisiaethau a Rennir â Chymorth sy'n darparu cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl, sydd ag anghenion cyflogaeth a dysgu dwys ac eang, i gwblhau prentisiaeth. O fewn y gyllideb sydd ar gael, bydd dysgwyr 16-24 oed yn parhau i gael blaenoriaeth yn unol ag ymrwymadau'r Warrant i Bobl Ifanc. Er mwyn lliniaru effeithiau ar draws sectorau diwydiant, byddwn yn gweithio gyda darparwyr prentisiaethau i flaenoriaethu'n ddigonol ar gyfer cyflawni ac i archwilio mentrau arbedion effeithlonrwydd.

Cyflogadwyedd a Sgiliau

123. Mae sgiliau a chyflogaeth yn parhau i fod yn arfau pwerus i fynd i'r afael â thlodi. Gwaith sy'n talu'n dda yw'r ffordd orau allan o dlodi a'r diogelwch mwyaf rhag tlodi i bawb sy'n wynebu risg. Gall hefyd fod yn ffactor allweddol i gynnal llesiant corfforol a meddyliol.
124. Rydym yn ailflaenoriaethu £19m o gyllid ar gyfer cyllidebau cyflogadwyedd a sgiliau sy'n galluogi cyflwyno gweithgareddau cyflogadwyedd a sgiliau allweddol, gan gynnwys Cymunedau am Waith +, Twf Swyddi Cymru+ a ReAct+. Mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi.
125. Er bu angen inni ailflaenoriaethu cyllid o fewn y gyllideb sydd ar gael, rydym yn ystyried sut y gellir targedu rhaglenni er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob grŵp o bobl ddod o hyd i waith cynaliadwy ledled Cymru. Rydym wedi diogelu cymorth i bobl ifanc 16-19 oed cyn belled ag y bo modd. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar nifer y cyfranogwyr ac yn effeithio ar gyrff y sector cyhoeddus sy'n cael y cyllid hwn. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr a darparwyr i liniaru'r effeithiau hyn cyn belled ag y bo modd.

Busnes, Cymorth Rhanbarthol a Masnach

126. Rydym yn rhyddhau £5.7m o'n cyllideb ar gyfer Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol i gyfrannu at waith ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru. Wrth gymryd y camau hyn rydym yn dal i gynllunio i gyflawni'r rhan fwyaf o weithgarwch y rhaglen a byddwn yn parhau i ddod ag ystod o effeithiau cadarnhaol i ddinasyddion a chymunedau ledled Cymru. Cynlluniwyd y newidiadau i leihau unrhyw effeithiau negyddol yn sgil gostyngiadau'r gyllideb.
127. Rydym hefyd yn buddsoddi £440,000 o'n cyllidebau Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi. Er bod angen ailgyfeirio ein cyllid, byddwn yn sicrhau bod ein cyllideb sy'n weddill yn gwireddu'r effeithiau gorau posibl i gydnabod yr effaith y mae allforion a mewnfuddsoddi yn ei chwarae o ran hybu twf economaidd, cynyddu cynhyrchiant, helpu i greu swyddi a thwf cyflog.

Trafnidiaeth

128. Yn dilyn y camau a gymerwyd gennym ym mis Hydref i helpu i reoli pwysau sy'n gysylltiedig â chynnal gweithrediadau rheilffyrdd, rydym wedi darparu cyllid ychwanegol yn 2024-25 o'i gymharu â'r hyn a nodwyd yn ein cynlluniau ym mis Mawrth 2023.
129. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'r pwysau hyn wedi'u hachosi gan effaith barhaus y pandemig ar yr amcanestyniadau refeniw uchelgeisiol o gais gwreiddiol KeolisAmey yn 2018 ochr yn ochr â chynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant mewn rhai costau gweithredol.
130. Heb y cyllid hwn, ni fyddai Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi gallu parhau i weithredu ei holl wasanaethau rheilffordd. Rydym yn parhau i weithio gyda TrC i sicrhau arbedion a lleihau'r bwlch rhwng incwm a chostau.
131. Byddai'r buddsoddiadau sylweddol sydd eisoes wedi'u gwneud yn y rheilffyrdd ledled Cymru wedi'u peryglu heb y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn y cynlluniau gwario diwygiedig. Bydd y pecyn buddsoddi ehangach hefyd yn helpu i gynyddu'r galw a chynyddu incwm refeniw yn sylweddol dros y blynyddoedd i ddod.
132. Fel pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, bydd angen gwneud dewisiadau anodd i fyw o fewn y setliad hwn. Mewn ymateb i'r pwysau chwyddiant hwn, bydd angen i TrC hefyd gynyddu prisiau tocynnau rheilffordd i helpu i gau'r bwlch a sicrhau cynaliadwyedd wrth symud ymlaen.
133. Yn ogystal â newidiadau yng nghyllideb rheilffyrdd TrC, rydym hefyd wedi gorfod symud £24m o gyllid ar draws ystod o'n cyllidebau trafniadaeth eraill.

Materion Gwledig

134. Rydym wedi cynnal Cynllun y Taliad Sylfaenol ar yr un lefel (£238m) ar gyfer 2024 ond rydym yn parhau i deimlo effaith penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n golygu ein bod wedi colli £243m o gyllid a fyddai wedi cymryd lle cyllid yr UE.
135. Rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer y rhaglenni sy'n bwysig i'r sector amaethyddol gan gynnwys cynnig contract i ymgeiswyr cymwys o dan Gynllun Cynefin Cymru; cefnogi'r sector organig a sicrhau bod hyd at £20m ar gael i gefnogi'r gwaith o weithredu'r rheoliadau llygredd amaethyddol.

- 136. Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb ar gyfer gweithgareddau iechyd a lles anifeiliaid. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fiaddiogelwch a mynd i'r afael â chlefydau anifeiliaid.
- 137. Rydym yn bwrw ymlaen â cham nesaf ein hymgyngoriad ar ein cynigion ar gyfer cymorth i ffermwyr yn y dyfodol. Datblygwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda ffermwyr ac mae wedi'i gynllunio i fod yn ddull integredig hirdymor i gefnogi cadernid ein diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Caiff ei gyflwyno yn 2025.
- 138. Mae'r newidiadau yn y portffolio Materion Gwledig yn canolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael i baratoi ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol i leihau'r effaith ar y gyllideb ehangach.

Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

- 139. Mae'r mesurau diogelu rydym wedi'u rhoi i gyflogadwyedd a sgiliau yn golygu bod angen i ni wneud y penderfyniad anodd i ailflaenoriaethu £16m o gyllid o weithgareddau diwylliant, chwaraeon a thwristiaeth yn ogystal â £2m o Cadw.
- 140. Er gwaethaf y penderfyniadau hyn, byddwn yn dal i allu cyflawni cryn dipyn o weithgarwch craidd a byddwn yn blaenoriaethu'r gyllideb sy'n weddill i gefnogi a hyrwyddo ein treftadaeth ddiwylliannol a chwaraeon gan barhau i helpu'r sectorau twristiaeth ac ymwelwyr i adfer o bandemig Covid-19 ac effeithiau parhaus yr argyfwng costau byw.
- 141. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd effaith ar wariant sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes, dehongli, gwirfoddoli a rhaglenni cyhoeddus eraill yn y sectorau hyn. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar gyfranogiad ac ymgysylltiad unigolion a chymunedau â diwylliant a'r celfyddydau, a bydd yn effeithio ar sut mae plant a phobl ifanc yn ymwneud â hynny. Wrth ystyried sut i wrthsefyll pwysau chwyddiant, bydd angen i gyrrff diwylliant archwilio ffynonellau incwm eraill.
- 142. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhwystrau lluosog i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig wrth gael mynediad i ddiwylliant a threftadaeth; mae angen ymdrin â'r rhain i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn, byddwn yn ystyried opsiynau i gynnal mynediad i grwpiau o ymwelwyr wedi'u targedu fel ymwelwyr anabl a'u gofalgwyr, addysg gymunedol a grwpiau ieuencid a byddwn yn parhau i annog presenoldeb gan ysgolion.
- 143. Rydym hefyd yn cynnal datblygiadau cyfalaf ar draws y sectorau rydym yn eu cefnogi, gan gynnwys drwy Gronfa'r Pethau Pwysig mewn datblygu twristiaeth, ffrydiau ariannu lluosog yn y sector creadigol a thrwy'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad cyfalaf mewn chwaraeon ar lawr gwlad drwy Chwaraeon Cymru ochr yn ochr â chyflawni ei raglen gyfalaf strategol yn barhaus.

Ailffocysu cyllid i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu.

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

- 144.** O ystyried y cyfyngiadau cyllidol eithriadol ar ein cyllideb, rydym wedi adolygu pob maes o'n cyllid, gan gynnwys mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli lle rydym wedi camu i'r adwy i ddarparu cyllid yn absenoldeb cymorth gan Lywodraeth y DU neu i gau bylchau. Yn y cyfnod anodd hwn, rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ariannu meysydd datganoledig yr ydym yn gyfrifol amdanynt.
- 145.** Rydym wedi gwerthfawrogi'n fawr waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru wrth helpu i ddiogelu cymunedau lleol ac yn cydnabod y rôl y maent wedi'i chwarae i gefnogi grwpiau sy'n fwy tebygol o ddioddef trosedd, megis pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, pobl Ddu, Asiaidd neu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol eraill.
- 146.** Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cynnal buddsoddiad ar yr un lefel o gyllid bellach. Ar y sail hon rydym yn ailflaenoriaethu £7.5m o'r gyllideb ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Er y byddwn yn dal i fuddsoddi £15.5m mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru, bydd angen i'n partneriaid plismona ail-lunio eu gweithlu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i leihau'r effeithiau negyddol cyn belled ag y bo modd.

Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am gynlluniau Cyllid Arloesol

Cynlluniau Cyllid Arloesol

1. Mewn Cyllidebau blaenorol rydym wedi nodi'r ystod o gynlluniau cyllid arloesol sydd wedi'u datblygu.
2. Mae cyllid heb ei neilltuo'n dal i gael ei ddsbarthu drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer dwy o fentrau benthyca Llywodraeth Leol – ar gyfer priffyrdd ac ysgolion. Mae cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddyrannu ar gyfer dau gylch o fuddsoddi gan ddefnyddio'r Grant Cyllid Tai.
3. Bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn parhau i weld buddsoddiad yn asedau amddiffyn arfordirol yr awdurdodau lleol i reoli risgiau newid hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr i gymunedau arfordirol ledled Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Dechreuodd y gwaith o adeiladu'r cynllun cyntaf yn 2019-20 ac mae'r gyllideb yn parhau i gario cyllid ar gyfer y rhaglen drosodd hyd at 2024-25. Ar hyn o bryd mae 15 o gynlluniau'r awdurdodau lleol yn y rhaglen ac, wrth ddyrannu setliad amlflwyddyn, byddwn yn monitro proffil cyflawni'r cynlluniau hyn.
4. Mae tri chynllun yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae'r gwaith adeiladu ym mhrosiect deuoli'r A465 ar y gweill a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2025. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Chwmni Partneriaeth Addysg Cymru ar adeiladu nifer o ysgolion a cholegau. Mae'r ddau brosiect MIM Addysg cyntaf bellach ar y gweill: Ysgol Pob Oed yn cael ei darparu ym Mynydd Isa ochr yn ochr â Chyngor Sir y Fflint a nifer o ysgolion cynradd yn cael eu darparu ochr yn ochr â Chyngor Bwrdeistref Sirol RhCT. Mae'r broses o gaffael partner y sector preifat i ddarparu Canolfan Ganser Felindre yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
5. Ni fydd taliadau gwasanaeth ar gyfer cynlluniau MIM yn dechrau nes y bydd y prosiectau seilwaith newydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd.
6. Bydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn parhau i gael ei ddefnyddio i ariannu cyfranddaliadau'r sector cyhoeddus mewn cynlluniau MIM. Caiff y gyfranddaliadaeth hon ei rheoli gan Fanc Datblygu Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.
7. I gefnogi ein hymrwymiad i dryloywder, cyhoeddwyd yr adroddiad MIM cyntaf ym mis Gorffennaf 2022, sy'n disgrifio ein gweithgareddau rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mehefin 2022. Mae ail adroddiad ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd 2023-24 bellach yn cael ei baratoi. Ochr yn ochr â'r adroddiad cyntaf, cyhoeddwyd y cytundeb partneriaeth strategol ar gyfer Addysg a chytundeb prosiect yr A465 (gan ddileu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol).
8. Mae cyllid arloesol a chynlluniau MIM yn rhoi hwb y mae ei fawr angen i gyllidebau cyfalaf, gan hwyluso mwy na £2bn o fuddsoddiad seilwaith a sicrhau bod cyfleusterau hanfodol i'r cyhoedd yn cael eu darparu'n gynt nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae'r rôl y bydd ein cynlluniau cyllid arloesol yn ei chwarae wrth gefnogi'r canlyniadau a sefydlwyd yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ddiweddaraf wedi'i nodi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf.

Atodiad C: Cynllun Gwella'r Gyllideb

Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym wedi cyhoeddi diweddariad i Gynllun Gwella'r Gyllideb. Cyhoeddwyd y Cynllun hwn yn gyntaf ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2020-21. Mae'n amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys uchelgeisiau tymor byr a chanolig dros y pum mlynedd nesaf, i wella'r broses gyllidebol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys y pum ffordd o weithio i ysgogi gwelliant parhaus yn ogystal â gwella'r prosesau hyn i daclo anghydraddoldeb a mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r diweddariad hwn yn cyflwyno ein huchelgeisiau pum mlynedd treigl, yn ogystal â chrynodeb o'n cynnydd yn ystod 2023 yn unol â'r ymrwymadau a bennwyd yng Nghynllun y llynedd.

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i gyhoeddi fel dogfen ar wahân a gellir dod o hyd iddo yn: <https://www.llyw.cymru.cynllun-gwellar-gyllideb-2024-2025>

Atodiad D: Rhagolygon Trethi Datganoledig ac Addasiadau i'r Grant Bloc

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer referniw o drethi datganoledig a manylion eu heffaith ar Gyllideb Llywodraeth Cymru.

Mae datganoli trethi yn effeithio ar Gyllideb Llywodraeth Cymru mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r referniw o drethi datganoledig yn gyfran sylweddol o gyfanswm y cyllid ar gyfer y Gyllideb (sef, ynghyd ag Ardrethi Annomestig, tua 20%). Yn ail, mae gostyngiadau i'r grant gan Lywodraeth y DU, a elwir yn addasiadau i'r grant bloc, yn cyd-fynd â'r referniw hwn.

Roedd lefel gychwynnol yr addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar y referniw yng Nghymru o'r dreth berthnasol adeg datganoli. Mae'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn yr addasiadau yn seiliedig ar dwf yn y ffrydiau referniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r mecanweithiau manwl wedi'u nodi yn y Cytundeb ar Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru¹.

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer referniw o drethi datganoledig a ddefnyddir yn y Gyllideb yn rhagolygon a gynhyrchir yn annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), yn unol â'r cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau i'r grant bloc yn seiliedig ar ragolygon referniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer yr un flwyddyn, eto gan yr OBR. Mae'r rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig wedi'u nodi'n fanylach yn y Rhagolwg Trethi Cymreig a gyhoeddir gan yr OBR ochr yn ochr â Chyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r rhagolygon perthnasol ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r cyhoeddiad hwnnw.

Mae rhan gyntaf yr adroddiad hwn yn nodi effaith net datganoli trethi - y gwahaniaeth rhwng referniw o drethi datganoledig a'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc bob blwyddyn.

Gan fod effaith gyllidebol datganoli trethi yn seiliedig ar ragolygon, mae angen proses gysoni unwaith y bydd gwybodaeth alldro flynyddol ar gael. Caiff symiau cysoni eu cymhwyso i'r Gyllideb mewn blynyddoedd diweddarach. Mae ail ran yr adroddiad hwn yn dangos y set ddiweddaraf o symiau cysoni.

Mae'r drydedd ran yn nodi sut mae referniw, addasiadau i'r grant bloc a symiau cysoni yn effeithio ar y ffynonellau cyllid yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

¹ [Cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU](#)

Adran 1: Refeniw ac Addasiadau i'r Grant Bloc

Mae'r adran hon yn cynnwys y rhagolygon diweddaraf ar gyfer refeniw o drethi, ochr yn ochr ag alldro ar gyfer blynyddoedd y mae'r alldro ar gael ar eu cyfer. Mae'r rhain wedi'u nodi yn nhabl 1, ynghyd â'r alldro a'r rhagolygon ar gyfer yr addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc.

Tabl 1: Alldro a Rhagolygon Refeniw o Drethi ac Addasiadau i'r Grant Bloc (£m)

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Refeniw					
Cyfraddau treth incwm Cymru	2,140	2,384	2,616	2,972	3,171
Y Dreth Trafodiadau Tir	211	402	372	280	251
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	32	45	42	31	29
Cyfanswm	2,382	2,832	3,030	3,284	3,451
Addasiadau i'r Grant Bloc					
Cyfraddau treth incwm Cymru	(2,078)	(2,312)	(2,595)	(2,862)	(3,017)
Y Dreth Trafodiadau Tir	(177)	(287)	(312)	(241)	(236)
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	(22)	(26)	(25)	(21)	(22)
Cyfanswm	(2,278)	(2,625)	(2,932)	(3,124)	(3,275)
Effaith net ar refeniw					
Cyfraddau treth incwm Cymru	62	72	21	110	154
Y Dreth Trafodiadau Tir	34	115	60	40	15
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	9	19	17	10	7
Cyfanswm	104	206	98	160	176
Alldro					

Gwnaeth effaith net bositif trethi datganoledig ar refeniw bron â dyblu rhwng 2020-21 a 2021-22. Disgwylir iddi aros yn bositif, gan leihau rhywfaint yn 2022-23 cyn codi eto yn 2023-24 a 2024-25. Rhagwelir y bydd effaith net y trethi datganoledig ar refeniw yn 2024-25 yn fwy na £176m yn gyfan gwbl, gyda chyfraniadau positif gan y tair treth.

Adran 2: Symiau cysoni

Nid yw gwybodaeth alldro ar gyfer refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) na'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc ond ar gael tua 16 mis ar ôl diwedd y flwyddyn berthnasol. Cyhoeddwyd yr wybodaeth alldro ddiweddaraf ar gyfer 2021-22 ym mis Gorffennaf eleni.

Mae'r ddwy elfen yn sefydlog at ddibenion cyllidebol gan ddefnyddio rhagolygon yr OBR o'r hydref blaenorol. Mae gwybodaeth alldro ar gael ar gyfer 2020-21 a 2021-22, gan alluogi cyfrifo symiau cysoni terfynol. Cyhoeddwyd nodyn technegol ar y cyd â Thrysorlys EF ar 7 Rhagfyr, yn rhoi manylion y symiau cysoni ar gyfer 2021-22. Ar gyfer blynyddoedd eraill hyd at 2023-24, amcangyfrifir symiau cysoni gan ddefnyddio'r rhagolwg diweddaraf. Dangosir symiau cysoni gwirioneddol a rhagolygol yn Nhabl 2.

Tabl 2: Symiau cysoni, alldro a rhagolygon (£m)

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
Cyfraddau Treth Incwm Cymru				
<u>Yn cael eu defnyddio mewn Cyllidebau</u>				
Refeniw	2,170	2,064	2,478	2,795
Addasiadau i'r Grant Bloc	(2,156)	(2,099)	(2,447)	(2,733)
<u>Alldro a'r rhagolygon diweddaraf</u>				
Refeniw	2,140	2,384	2,616	2,972
Addasiadau i'r Grant Bloc	(2,078)	(2,312)	(2,595)	(2,862)
<u>Symiau cysoni</u>				
Refeniw	(30)	320	138	177
Addasiadau i'r Grant Bloc	78	(213)	(148)	(129)
Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn				
<u>Addasiadau i'r Grant Bloc a ddefnyddir mewn Cyllidebau</u>				
Y Dreth Trafodiadau Tir	(174)	(277)	(322)	(241)
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	(22)	(23)	(27)	(21)
<u>Alldro'r Addasiadau i'r Grant Bloc a'r rhagolygon diweddaraf</u>				
Y Dreth Trafodiadau Tir	(177)	(287)	(312)	(241)
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	(22)	(26)	(25)	(21)
<u>Symiau cysoni</u>				
Y Dreth Trafodiadau Tir	(3)	(10)	9	
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	0	(3)	2	
Alldro				

Mae data alldro ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi) a threthi cyfatebol y DU yn fwy amserol ac maent bellach ar gael hyd at 2022-23. Fel yn achos CTIC, gosodir yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn gan ddefnyddio rhagolygon yr hydref blaenorol ond, yn wahanol i CTIC, fe'u hadolygir yn ystod y flwyddyn hefyd. Mae hyn yn golygu bod y symiau cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc yn tueddu i fod yn gymharol fach. Dangosir y rhain yn Nhabl 2 hefyd. (Nid oes unrhyw gysoni ar gyfer y refeniw o'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn eu hunain, gan fod alldro yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar unwaith.)

Adran 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd wybodaeth o'r ddwy adran gyntaf i ddangos yr effaith gyffredinol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae Tabl 3 yn rhoi manylion ar gyfer 2024-25 sy'n cyd-fynd â'r tabl Ffynonellau Cyllid, sef Tab 1 yn y llyfr gwaith [Tablau sy'n Cefnogi'r Cynlluniau Gwario](#).

Mae hefyd yn dangos sut mae hyn wedi newid ers y ffigurau dangosol yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2023-24.

Mae'r symiau cysoni ar gyfer refeniw CTIC a'r addasiadau i'r grant bloc yn cael eu cymhwyso i'r Gyllideb 3 blynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Felly, mae symiau cysoni 2021-22 yn cael eu cymhwyso i Gyllideb 2024-25.

Mae'r cysoni ar gyfer yr addasiadau i'r grant bloc sy'n ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cymhwyso 2 flynedd ar ôl y flwyddyn y maent yn perthyn iddi. Mae symiau cysoni 2022-23 yn cael eu cymhwyso yn 2024-25.

Tabl 3: Rhagolygon a symiau cysoni yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 (£m)

	Ffigurau dangosol 2024-25 Mawrth 2023	Newid	Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023
Refeniw o drethi:			
Refeniw CTIC	2,927	244	3,171
Symiau cysoni refeniw CTIC	337	(16)	320
Cyfanswm CTIC	3,263	228	3,491
Y Dreth Trafodiadau Tir	299	(48)	251
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	39	(10)	29
Cyfanswm refeniw trethi datganoledig	3,601	170	3,771
Addasiadau i'r Grant Bloc			
Cyfraddau treth incwm Cymru	(2,832)	(185)	(3,017)
Y Dreth Trafodiadau Tir	(231)	(5)	(236)
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	(24)	3	(22)
<u>Symiau cysoni o flynyddoedd blaenorol</u>			
Cyfraddau treth incwm Cymru	(286)	74	(213)
Y Dreth Trafodiadau Tir	0	9	9
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	0	2	2
<u>Cyfanswm</u>			
Cyfraddau treth incwm Cymru	(3,119)	(111)	(3,230)
Y Dreth Trafodiadau Tir	(231)	4	(227)
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	(24)	5	(20)
Cyfanswm addasiadau i'r grant bloc	(3,374)	(103)	(3,477)

Cyfanswm yr effaith net ar y gyllideb

228

67

294

Cyfanswm effaith net y trethi datganoledig ar gyllideb 2024-25 yw dros £294m, gan gynnwys symiau cysoni mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn £67m yn fwy na'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yn ffigurau dangosol 2024-25 ochr yn ochr â Chyllideb Derfynol 2023-24.

Atodiad E: Costau gweithredu deddfwriaeth

Costau gweithredu deddfwriaeth a ddeddfwyd yn 2023-24 a 2024-25

[Cliciwch ar deitl pob Deddf i gael gwybodaeth gefndirol]

Teitl y Ddeddf	Pa BEL sy'n ariannu'r costau?	Cam gweithredu	Blwyddyn	Amcangyfrif yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau (£)	Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol					
Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020	Cymorth i Deuluoedd a Phlant (1085)	Mawrth 2022 i Fawrth 2027	2024-25	643,000	1,020,000
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017¹	Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (0231)	Gorffennaf 2017 i Parhaus	2024-25	26,700	44,700
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016²	Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (0920)	2016 i Parhaus	2024-25	599,000	0
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018	Camddefnyddio Sylweddau	2019-20 i	2024-25	Amherthnasol	Amherthnasol

¹Mae'r costau cyfle a nodwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u dileu o'r ffigurau amcangyfrifedig, sydd bellach yn dangos costau lle disgwyliid llif arian yn unig. Diweddarwyd y costau gwirioneddol a'r swm a neilltuwyd ar gyfer y blynyddoedd a gwmpesir gan y gyllideb hon yn dilyn ailbroffilio yn ystod y cyfnod gweithredu.

²Oherwydd y dull graddol a fabwysiadwyd i'w weithredu, mae costau i'r rheoleidiwr gwasanaeth wedi'u gwasgaru yn hytrach na'u crynhoi yn y flwyddyn gyntaf fel y nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Teitl y Ddeddf	Pa BEL sy'n ariannu'r costau?	Cam gweithredu	Blwyddyn	Amcangyfrif yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau (£)	Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£)
	(1682)	2023-24			
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020	Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (0233)	2020 i 2023-24	2024-25	Amherthnasol I	Amherthnasol
Y Gymraeg ac Addysg					
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018³	Anghenion Dysgu Ychwanegol (5115)	Medi 2021 i Awst 2024	2024-25	0	13,165,000
Deddf Cwricwlwm ac Aseu (Cymru) 2021⁴	Diwygio'r Cwricwlwm (5167) Cwricwlwm ac Aseu (5162) Cymwysterau Cymru (5166) Datblygiad a Chymorth i	Ebrill 2021 i Fedi 2026	2024-25	19,120,000 i 20,700,000	31,000,000 ⁵

³Bydd y cyfnod gweithredu yn para'n hirach nag a ragwelwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

⁴Mae'r symiau a neilltuwyd yn y Gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 ymlaen yn parhau i gynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau ychwanegol Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau newydd, ynghyd â darpariaeth o £15m ar gyfer Dysgu Proffesiynol ochr yn ochr â llinellau sylfaen cyllideb Diwygio'r Cwricwlwm – yn ogystal â darpariaeth ychwanegol i gefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr sy'n cael ei dyrannu yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 - £5m a 2024-25 - £1.66m.

⁵ Mae'r costau ar gyfer 2024-25 wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r gostyngiad yng nghyllidebau Diwygio'r Cwricwlwm o £1.6m sy'n cael ei weithredu fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft.

Teitl y Ddeddf	Pa BEL sy'n ariannu'r costau?	Cam gweithredu	Blwyddyn	Amcangyfrif yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau (£)	Swm a neilltuwyd yn y Gyllideb (£)
	Athrawon (4880)				
Cyfiawnder Cymdeithasol					
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023	Partneriaeth Gymdeithasol 1693	Mehfin 2023 – Rhagfyr 2025	2024-2025	£777,800	873,000 ⁶

⁶ Mae'r BEL hon yn cynnwys costau adrannol eraill yn ogystal â'r rhai sy'n deillio'n uniongyrchol o weithredu'r Ddeddf.

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

1. Daeth y Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae'n helpu i amddiffyn plant a'u hawliau drwy wahardd defnyddio cosbi corfforol yng Nghymru. Gwna hyn drwy ddiddymu'r amddiffyniad o gosb resymol, a oedd ar gael yn flaenorol i rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

2. Ar draws ei hystod eang o ddarpariaethau, bydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi mesurau amddiffyn pwysig yn eu lle ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys estyn y gofynion di-fwg i fannau agored penodol, cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig, yn ogystal â gwahardd tyllu rhannau personol o'r corff ar gyfer unrhyw un dan 18 oed. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â materion pwysig eraill ym maes iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gordewdra a chynllunio toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

3. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn set o ddarpariaethau sy'n darparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ac wedi'i symleiddio ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:
 - diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
 - darparu fframwaith rheoleiddio sy'n galw am ddull gweithredu o ran rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
 - diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol;
 - ailsefydlu ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn ehangu ei gylch gorchwyl;
 - diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

4. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan bobl benodol ac mae'n ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi am bris is na'r pris hwnnw.
5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:
 - y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned;
 - pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r isafbris uned;
 - sefydlu trefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol â phwerau i erlyn;
 - pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol,

trosedd o rwystro swyddog awdurdodedig, a'r pŵer i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig.

6. Mae'r Ddeddf yn cynnig y byddai'r isafbris uned yn cael ei bennu yn y rheoliadau. Fodd bynnag, at ddibenion asesu effeithiau a chostau a manteision cysylltiedig, mae'r Memorandwm Esboniadol yn defnyddio isafbris uned o 50c fel enghraifft.

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

7. Mae'r Ddeddf yn fecanwaith ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr asedau sydd gennym yng Nghymru i gryfhau a diogelu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso llais cryfach gan ddinasyddion, gan wella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu gwell profiad ac ansawdd gofal i bobl yng Nghymru a chyfrannu at wlad iach a ffyniannus. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronol i boblogaeth Cymru a sefydlu amodau sy'n ffafriol i wella iechyd a llesiant. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyflwyno newidiadau a fydd yn:
 - rhoi ystyriaethau ansawdd wrth wraidd yr holl gyrff GIG yng Nghymru a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â'u swyddogaethau iechyd);
 - gosod dyletswydd gonestrwydd ar holl gyrff y GIG ar lefel sefydliadol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o chwith. Mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, caiff cyrff y GIG eu diffinio fel byrddau iechyd lleol, Ymddiriedolaethau, Awdurdodau Iechyd Arbennig (gan gynnwys Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn perthynas â'i swyddogaethau yng Nghymru) a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru mewn perthynas â'r gwasanaethau GIG y maent yn eu darparu;
 - cryfhau llais dinasyddion ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gysylltu pobl ymhellach â'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iddynt;
 - cryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG.

Addysg

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

8. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig cyfredol gyda system ddiwygiedig ar sail Anghenion Dysgu Ychwanegol.
9. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol cyfredinol, statudol ar gyfer yr holl blant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd hyn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaeth presennol rhwng ymyriadau sy'n cael eu harwain gan yr ysgol a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac fe fydd yn integreiddio'r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy'n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr ôl-16 mewn colegau. Mae'r Ddeddf hefyd yn gobeithio gwella cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a

mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundeb a datrys anghydfodau.

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

10. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd diwygiedig i helpu i roi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar waith yn rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru.

Cyfiawnder Cymdeithasol

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

11. Mae'r Ddeddf yn cyflawni un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i roi statws statudol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gan hyrwyddo gwaith teg a phrosesau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Yn gwyno, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol parhaol i Gymru, gan ddod â'r llywodraeth, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr ynghyd. Bydd y Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol ar rai cyrff cyhoeddus ac ar Weinidogion Cymru, ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwaith teg, ac yn cryfhau caffael cymdeithasol gyfrifol.

Atodiad F: Rhestr o dermau ariannol

Cam Gweithredu

O fewn pob Maes Rhaglen Wariant (SPA), dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.

Cwmpasoedd

Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan y Senedd i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfwyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. Caiff gwariant awdurdodau lleol a gyllidir drwy Ardrethi Annomestig ei gynnwys mewn cyllidebau AME hefyd.

Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn [Cyllidebau Llywodraeth Cymru](#).

Fformiwla Barnett

Y fformiwla a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gyfrifo newidiadau i'r grant bloc a ddyrennir i Lywodraeth Cymru (ac i'r Llywodraethau Datganoledig eraill). Mae Llywodraeth Cymru yn cael yr un newidiadau i gyllid y pen o'r boblogaeth â'r hyn a gyhoeddir yn Lloegr ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn 2016, caiff ffactor sy'n seiliedig ar anghenion ei gymhwyso hefyd i ddyraniadau fformiwla Barnett i Gymru. Ar hyn o bryd mae hwn wedi'i bennu ar 5% yn ychwanegol.

Cynnig y Gyllideb

Y dull a ddefnyddir gan y Senedd i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Cyfalaf

Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

Terfyn y gyllideb amlfwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlfwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.

Dibrisiant

Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.

Gwariant a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru

Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ei godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw felly'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol y mae cydnabyddiaeth ariannol y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf na ellir ei ddefnyddio ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys EF.

DEL Adnoddau Cyllidol (a elwid gynt yn 'adnoddau sydd bron yn arian parod')

Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.

Prif Grŵp Gwariant (MEG)

Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir wyth MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Newid Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

DEL Adnoddau Anghyllidol (a elwid gynt yn 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')

Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariadau o ran benthyciadau i fyfyrwyr a dibrisiant. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.

Derbyniadau

Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

Cyllidebu adnoddau

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys codi swm am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliodd.

Adnoddau (a elwid gynt yn 'refeniw')

Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu gwasanaethau a nwyddau traul.

Adolygiad o Wariant

Bob dwy neu dair blynedd, mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys EF i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.

Cylch Gwario

Mae'r Cylch Gwario yn broses a arweinir gan Drysorlys y DU i ddyrannu adnoddau ar draws yr holl adrannau llywodraeth, yn ôl blaenoriaethau'r Llywodraeth. Nid yw'n cynnwys diwygiad i ragolygon trethi.

Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)

Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Cronfa Wrth Gefn Cymru

Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru ar waith ers mis Ebrill 2018 fel dull i alluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb ar draws cyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol, i'w defnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa.

Cronfa Gyfunol Cymru

Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.

CNLC

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.